

Yr Atodlen

Statudau'r Brifysgol

1. DIFFINIADAU

- (1) Yn y Statudau, ac eithrio lle y bydd y cyd-destun yn gofyn ystyr wahanol, yr ystyr a ganlyn a fydd i'r termau canlynol:

Mae "y Brifysgol" yn golygu Prifysgol Cymru.

Mae "y Siarter" yn golygu Siarter Atodol y Brifysgol sydd mewn grym ar y pryd.

Mae "y Statudau" yn golygu'r Statudau hyn ac unrhyw Statud neu Statudau a fydd ar y pryd yn eu diwygio neu'n eu disodli.

Mae "y Cyngor" yn golygu Cyngor y Brifysgol.

Mae "y Bwrdd Academaidd" yn golygu Bwrdd Academaidd y Brifysgol.

Mae "Graddedigion" yn golygu'r personau hynny y bydd y Brifysgol wedi cyflwyno gradd neu raddau iddynt.

Mae "Staff y Brifysgol" yn golygu'r personau a benodir i'r staff hwnnw gan neu drwy awdurdod y Cyngor.

Mae "Sefydliadau Achrededig" yn golygu'r sefydliadau hynny a ddynodir gan y Brifysgol dan ddarpariaethau'r Siarter a'r Ordiniannau, ac am y tro, yn Sefydliad Achrededig.

Mae "Sefydliadau Perthynol" yn golygu'r sefydliadau hynny a ddynodir gan y Brifysgol dan ddarpariaethau'r Siarter a'r Ordiniannau, ac am y tro, yn Sefydliad Perthynol.

Mae "Cyrrff Cysylltiol" yn golygu Sefydliadau Achrededig, Sefydliadau Perthynol ac unrhyw gyrff neu sefydliadau eraill y mae gan y Brifysgol gysylltiad â hwy yn unol ag Erthygl V(j) o'r Siarter.

Mae "darpariaeth Ddilysedig" yn golygu'r cynlluniau astudio neu'r rhaglenni ymchwil hynny a ddarperir mewn sefydliadau nad ydynt yn Sefydliadau Achrededig neu Perthynol ac a gymeradwywyd gan y Brifysgol ac a ddynodwyd ganddi yn gynlluniau astudio dilysedig neu raglenni ymchwil dilysedig mewn modd a ddynodir drwy Ordiniant.

Mae "Ordiniannau" yn golygu unrhyw Ordiniannau a wneir yn unol â'r Siarter neu'r Statudau.

Mae "Rheoliadau" yn golygu unrhyw Rheoliadau a wneir yn unol â'r Siarter neu'r Statudau neu'r Ordiniannau.

Mae "Rheol Sefydlog" yn golygu Penderfyniad a wneir gan unrhyw gorff a gyfansoddir o dan y Statudau hyn at ddiben rheoli ei drefn weithredu ei hun.

Mae "Blwyddyn" yn golygu blwyddyn galendr.

Bydd i'r geiriau a ddiffinnir yn y Siarter yr un ystyr yn y Statudau onid yw'r cyd-destun yn anghymarus â hynny.

Bydd geiriau sydd yn yr unigol yn cynnwys y lluosog a geiriau sydd yn y lluosog yn cynnwys yr unigol onid ymddengys bwriad i'r gwrthwyneb.

- (2) Bydd i'r geiriau a ddiffinnir yn y Siarter neu'r Statudau yr un ystyr yn yr Ordiniannau a'r Rheoliadau onid yw'r cyd-destun yn anghymarus â hynny.

2. SEFYDLIADAU ACHREDEDIG A SEFYDLIADAU PERTHYNOL

- (1) Gellir dyfarnu statws Sefydliad Achrededig yn unig i sefydliad lle mae o leiaf 'traean' (yn ôl diffiniad yr Ordiniannau) o'i ddarpariaeth academaidd gyflawn yn cael ei gynnig dan nawdd y Brifysgol gan arwain at raddau a/neu ddyfarniadau academaidd eraill y Brifysgol.

- (2) Gellir dyfarnu statws Sefydliad Perthynol i sefydliad lle mae rhywfaint, ond llai na 'thraean' (yn ôl diffiniad yr Ordiniannau) o'i ddarpariaeth academaidd gyflawn yn cael ei gynnig dan nawdd y Brifysgol gan arwain at raddau a/neu ddyfarniadau academaidd eraill y Brifysgol.

- (3) Rhaid i unrhyw Ordiniant sy'n darparu ar gyfer bod unrhyw sefydliad yn dod yn Sefydliad Achrededig neu yn Sefydliad Perthynol gael ei gymeradwyo gan Benderfyniad Arbennig y Cyngor fel y'i diffinnir yn y Siarter.

3. DILEWYD

4. Y CANGHELLOR

- (1) Penodir y Canghellor gan y Cyngor mewn modd ac am dymor i'w pennu drwy Ordiniant.
- (2) Ni ddaw'r Canghellor i'w swydd tan i'r Ymwelydd fod wedi cymeradwyo'i enw neu ei henw.

5. Y DIRPRWY GANGHELLOR

Penodir y Dirprwy Ganghellor gan y Cyngor mewn modd ac am dymor i'w pennu drwy Ordiniant.

6. YR IS-GANGHELLOR

- (1) Penodir yr Is-Ganghellor gan y Cyngor mewn modd ac am dymor i'w pennu drwy Ordiniant.
- (2) Yr Is-Ganghellor fydd Prif Swyddog Academaidd a Gweithredol y Brifysgol a bydd yn gyfrifol i'r Cyngor am hyrwyddo ac uchafu pwrpasau'r Brifysgol ac am gyfundrefn a gweithrediad busnes y Brifysgol.
- (3) Bydd yr Is-Ganghellor yn aelod ex officio o'r Cyngor, y Bwrdd Academaidd a phob corff arall y gellir rhoi iddo gyfrifoldebau sy'n effeithio ar lywodraethu'r Brifysgol gan y Siarter, Statudau neu Ordiniannau, a phob pwyllgor ohonynt.
- (4) Bydd gan yr Is-Ganghellor y pŵer i ddirprwyo i swyddogion eraill a staff y Brifysgol y dyletswyddau hynny o eiddo'r Is-Ganghellor ag y gwêl yn dda.
- (5) Yn ystod unrhyw gyfnod pan fydd y swydd yn wag, neu pan fydd yr Is-Ganghellor yn sâl neu'n analluog, bydd gan y Cyngor y pŵer i benodi Is-Ganghellor Gweithredol.

7. DILEWYD

8. DILEWYD

9. Y SWYDDOGION A'R STAFF

Bydd y Cyngor yn penodi unrhyw swyddogion a staff eraill y barno eu bod yn angenrheidiol a rhoi iddynt y dyletswyddau a farno'r Cyngor yn addas.

10. YR ARCHWILIWR NEU'R ARCHWILWYR

Bydd y Cyngor yn penodi Archwiliwr neu Archwilwyr mewn modd ac am dymor i'w pennu drwy Ordiniant.

11. YMGYNGHORI

Rhaid i'r Brifysgol, mewn modd fydd wedi'i bennu drwy Ordiniant:

- (i) ymgynghori'n gyson â'i Graddedigion, y cyhoedd ac â chyrrff sydd â diddordeb mewn hybu cenhadaeth y Brifysgol, ac

- (ii) adnabod personau sydd yn gymwys ac yn barod i ddarparu cefnogaeth a chyngor i'r Brifysgol mewn perthynas â hybu cenhadaeth y Brifysgol.

12. DILEWYD

13. DILEWYD

14. DILEWYD

15. Y CYNGOR

- (1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Statud 34, bydd y Cyngor yn cynnwys y personau a ganlyn:
- (a) *aelod ex officio*
Yr Is-Ganghellor
- (b) *aelodau a benodwyd*
- (i) Tri Is-Ganghellor/Prifathro a benodir gan ac o blith Is-Gangellorion/Prifathrawon y sefydliadau hynny a fydd, o dan ddarpariaethau'r Ordiniannau, ac am y tro, wedi'u dynodi gan y Brifysgol yn Sefydliadau Achrededig
- (ii) Tri Chadeirydd cyrff llywodraethu a benodwyd gan ac o blith Cadeiryddion y sefydliadau hynny a fydd, o dan ddarpariaethau'r Ordiniannau, ac am y tro, wedi'u dynodi gan y Brifysgol yn Sefydliadau Achrededig
- (iii) Dau berson a benodwyd gan ac o blith cynrychiolwyr ar y Bwrdd Academaidd o'r sefydliadau hynny a fydd, o dan ddarpariaethau'r Ordiniannau, ac am y tro, wedi'u dynodi gan y Brifysgol yn Sefydliadau Achrededig
- (iv) Un person wedi'i benodi gan ac o blith staff y Brifysgol
- (v) Un person wedi'i benodi o blith y myfyrwyr sy'n dilyn dyfarniad Prifysgol Cymru, wedi'i benodi gan Lywyddion myfyrwyr (pa derm bynnag a ddefnyddir ar gyfer y swydd honno) o'r sefydliadau hynny a fydd, o dan ddarpariaethau'r Ordiniannau, ac am y tro, wedi'u dynodi gan y Brifysgol yn Sefydliadau Achrededig
- (vi) Deuddeg o bersonau annibynnol eraill
- (c) *aelodau cyfetholedig*
Hyd at ddau berson annibynnol
- (2) (a) Bydd aelod ex officio y Cyngor yn dal y swyddi cyhyd â'i fod neu ei bod yn dal i lenwi'r swyddi y daeth yn aelod o'u herwydd.
- (b) Bydd yr aelodau cyfetholedig o'r Cyngor yn dal eu swyddi am dair blynedd.
- (c) Bydd aelodau eraill y Cyngor yn dal eu swyddi am dair blynedd neu tra cadwant y cymhwyster a'u gwnaeth yn gymwys gyntaf i'w penodi i'r Cyngor, pa un bynnag fydd y cyfnod byrraf.
- (3) Er gwaethaf y darpariaethau uchod, ac yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Statud 15(1), bydd yr holl ddarpariaethau eraill sy'n ymwneud â phenodi a chyfethol aelodau o'r Cyngor yn cael eu rhagnodi yn yr Ordiniannau.

16. CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y CYNGOR

- (1) Y Cyngor fydd yn penodi Cadeirydd y Cyngor mewn modd ac am dymor i'w pennu drwy Ordiniant.

- (2) Y Cyngor fydd yn penodi Is-Gadeirydd y Cyngor mewn modd ac am dymor i'w pennu drwy Ordiniant.

17. PWERAU'R CYNGOR

Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Siarter a'r Statudau, bydd gan y Cyngor, yn ogystal â'r holl bwerau eraill a freiniwyd ynddo, y pwerau a ganlyn:

- (1) I benodi Canghellor, Dirprwy Ganghellor a'r Is-Ganghellor mewn modd ac am dymor i'w pennu drwy Ordiniant.
- (2) I benodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor mewn modd ac am dymor i'w pennu drwy Ordiniant.
- (3) I benodi staff y Brifysgol ac i reoli cyflogau ac amodau cyflogaeth y staff hynny ac i sefydlu'r swyddi o fewn y Brifysgol y credir o bryd i'w gilydd eu bod yn fuddiol.
- (4) I gyflwyno ar sefydliadau eraill statws Sefydliad Achrededig neu Sefydliad Perthynol y Brifysgol.
- (5) Ar gyngor y Bwrdd Academiaidd ac o dan amodau sydd i'w rhagnodi yn yr Ordiniannau:
 - (i) caniatáu i Sefydliadau Achrededig a Sefydliadau Perthynol, ac i Gyrrff Cysylltiol eraill yr hawl i sefydlu a gweithredu cynlluniau astudio a rhaglenni ymchwil sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol a chofrestru myfyrwyr ar y cyfryw gynlluniau a rhaglenni yn y fath fodd ac ar y telerau a'r amodau y bimir gan y Brifysgol eu bod yn briodol;
 - (ii) pennu trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau mewn perthynas â'r cynlluniau astudio a'r rhaglenni ymchwil hynny sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol a sefydlwyd yn unol â Statud 17(5)(i);
 - (iii) caniatáu i unrhyw Sefydliad Achrededig a Sefydliad Perthynol a fydd wedi ennill ei bwerau dyfarnu graddau a ddysgir ei hun, cyfrifoldeb dirprwyedig am faterion yn ymwneud ag ansawdd a safonau cynlluniau astudio sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol lle bydd cynlluniau astudio o'r fath yn cael eu gweithredu gan y cyfryw sefydliad neu gan unrhyw Sefydliad Achrededig neu Sefydliad Perthynol arall;
 - (iv) caniatáu i unrhyw Sefydliad Achrededig a Sefydliad Perthynol a fydd wedi ennill ei bwerau dyfarnu graddau ymchwil ei hun, cyfrifoldeb dirprwyedig am faterion yn ymwneud ag ansawdd a safonau rhaglenni ymchwil sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol lle bydd rhaglenni ymchwil o'r fath yn cael eu gweithredu gan y cyfryw sefydliad neu gan unrhyw Sefydliad Achrededig neu Sefydliad Perthynol arall;
 - (v) o dro i dro, adolygu unrhyw benderfyniadau a fydd wedi'u gwneud gan y Cyngor mewn perthynas â darpariaethau Statud 17(5)(i), Statud 17(5)(ii), Statud 17(5)(iii) a Statud 17(5)(iv) ac y bimir gan y Cyngor eu bod yn briodol,
 - (a) cadarnhau'r hawliau a'r cyfrifoldebau a ganiatawyd o dan Statud 17(5)(i), Statud 17(5)(iii), a Statud 17(5)(iv) a'r trefniadau a bennwyd o dan Statud 17(5)(ii);
 - (b) pennu amodau ar gyfer parhad yr hawliau a'r cyfrifoldebau a ganiatawyd o dan Statud 17(5)(i), Statud 17(5)(iii), a Statud 17(5)(iv) ac addasu'r trefniadau a bennwyd o dan Statud 17(5)(ii); neu
 - (c) tynnu'r hawliau a'r cyfrifoldebau a ganiatawyd o dan Statud 17(5)(i), Statud 17(5)(iii) a Statud 17(5)(iv) yn ôl a therfynu'r trefniadau a bennwyd o dan Statud 17(5)(ii).

- (6) I gadarnhau cyflwyno graddau, diplomâu, tystysgrifau ac anrhydeddau eraill gan y Brifysgol.
- (7) Yn ddarostyngedig i amodau a bennir yn yr Ordiniannau, i gymeradwyo cyflwyno Graddau er Anrhydedd ac Anrhydeddau eraill gan y Brifysgol.
- (8) I hawlio a chael y cyfryw ffioedd sy'n daladwy i'r Brifysgol mewn perthynas ag astudiaethau sy'n arwain at Raddau a chymwysterau'r Brifysgol.
- (9) Ar ôl ymgynghori â'r Bwrdd Academiaidd i reoli'r ffioedd a'r taliadau eraill sydd i'w talu i arholwyr ac aseswyr allanol mewn perthynas ag arholiadau'r Brifysgol.
- (10) I sefydlu, ar y cyd â'r Bwrdd Academiaidd ac yn ddarostyngedig i unrhyw amodau a osodwyd gan y sylfaenwyr, Gymrodoriaethau, Efydyddiaethau, Ysgoloriaethau, Gwobrau, Arddangostaloedd ac Addysgedau'r Brifysgol a chynorthwyon eraill i astudio ac ymchwilio.
- (11) I gymeradwyo cydgysylltiad cyrff a sefydliadau eraill yn unol ag Erthygl V(j) y Siarter.
- (12) I benodi person neu bersonau i ymweld â'r cyfleusterau cyffredinol o ran dysgu ac ymchwilio mewn unrhyw gorff neu sefydliad sydd yn awr, neu a all ddod, yn Gorff Cysylltiol a chyflwyno adroddiad arnynt.
- (13) I alw am adroddiadau oddi wrth gyrff y Brifysgol, ac unrhyw Gorff Cysylltiol neu Gyrff Cysylltiol.
- (14) I negodi ar ran y Brifysgol ag Adrannau'r Llywodraeth ac unrhyw awdurdodau, sefydliadau, cwmnïau a phersonau eraill.
- (15) I ddiddymu neu amrywio'r Siarter neu i ychwanegu ati.
- (16) I wneud Statudau ac Ordiniannau o fewn y terfynau ac yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau a awdurdodir gan y Siarter, y Statudau a'r Ordiniannau.
- (17) I lywodraethu, rheoli a gofalu am gyllid, cyfrifon, buddsoddiadau, eiddo, busnes a holl faterion y Brifysgol o bob math, ac at y diben hwnnw i benodi bancwyr neu asiantau eraill y bo'r Cyngor yn barnu ei bod yn fuddiol eu penodi ac i beri i lyfrau cyfrifon priodol gael eu cadw ar gyfer pob ffynhonnell o arian a geir ac a werir gan y Brifysgol ac ar gyfer asedion a rhwymedigaethau'r Brifysgol; fel y bo'r llyfrau hynny yn rhoi darlun cywir a theg o faterion y Brifysgol ac yn esbonio'i thrafodion.
- (18) I fuddsoddi unrhyw arian sy'n perthyn i'r Brifysgol yn y stociau, y cronfeydd, y cyfrannau, y sicrydynnau neu'r buddsoddiadau o bob math (heblaw tir) lle bynnag y bônt (p'un a awdurdodir hynny gan y gyfraith gyffredinol ar gyfer buddsoddi arian ymddiried neu nad awdurdodir mohono) y gwêl y Cyngor yn dda neu mewn prynu tir yn y Deymas Unedig yn ddarostyngedig neu heb fod yn ddarostyngedig i brydlesoedd neu denantiaethau ac i amrywio unrhyw fuddsoddiadau o'r fath gan gynnwys sylweddoli buddsoddiadau presennol ac ail-fuddsoddi derbyniadau net y sylweddoliad. Ar yr amod, yn achos arian a ddelir gan y Brifysgol fel ymddiriedolwr, y caiff y pwerau a roir drwy hyn eu hymarfer yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r gyfraith ynglŷn â buddsoddi gan ymddiriedolwyr. Ar yr amod bellach na fydd y pwerau i fuddsoddi ac i amrywio buddsoddiadau a gynhwysir uchod yn estyn i arian a buddsoddiadau a ddelir gan y Brifysgol fel ymddiriedolwr ar ymddiriedolaethau arbennig a grëwyd gan roddwr neu ewyllysiwr.
- (19) I werthu, prynu, cyfnewid, rhoi ar brydles a derbyn prydlesau o eiddo real a phersonol ar ran y Brifysgol.
- (20) I gynnal a gwaredu'r adeiladau, y tir, y celfi/dodrefn a'r cyfarpar sy'n perthyn i'r Brifysgol neu a ddelir mewn ymddiriedolaeth ganddi ac i ddarparu'r adeiladau ychwanegol y bo'r Cyngor yn ystyried eu bod yn briodol.

- (21) I gael benthg arian ar ran y Brifysgol ac, at y diben hwnnw, os gwêl y Cyngor yn dda, i forgeisio neu wystlo neu arwystlo y cyfan neu ran o eiddo'r Brifysgol, boed real neu bersonol, a rhoi unrhyw sicrydyn arall y bo'r Cyngor yn gweld yn dda.
- (22) I lofnodi, amrywio a chyflawni contractau ar ran y Brifysgol.
- (23) I ddarparu ar gyfer lles yr holl bersonau sydd neu a oedd ar unrhyw adeg yn aelodau o staff y Brifysgol a phersonau dibynnol y personau hynny, gan gynnwys talu arian, pensiynau neu fudd-daliadau eraill ac i danysgrifio i gronfeydd haelionus a chronfeydd eraill er lles y personau hynny.
- (24) I benodi a diddymu pwyllgorau sy'n cynnwys yn rhannol neu'n llwyr aelodau o'r Cyngor a dynodi'r modd y penodir aelodau a swyddogaethau pwyllgorau o'r fath.
- (25) O dan amodau sydd i'w pennu yn yr Ordiniannau, cyflwyno i unrhyw berson deitl Athro, Darllenydd neu unrhyw un o deitlau eraill y Brifysgol (ac i dynnu unrhyw deitl o'r fath yn ôl).
- (26) I fod yn unig geidwad a defnyddiwr Sêl Gyffredin y Brifysgol.
- (27) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Siarter a'r Statudau, i bennu'r holl faterion sy'n ymwneud â llywodraeth, cenhadaeth, strategaeth, cynllunio a gweinyddu gweithgareddau'r Brifysgol a'i gwasanaethau canolog.
- (28) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Siarter a'r Statudau, i gymryd unrhyw gamau ag y gwêl yn dda er mwyn hyrwyddo buddiannau ac effeithlonrwydd y Brifysgol a thrafod busnes gweithredol y Brifysgol.
- (29) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Siarter a'r Statudau, ymarfer holl bwerau eraill y Brifysgol.
- (30) I ddirprwyo unrhyw rai o'i bwerau i Swyddogion ac i'r pwyllgorau hynny a sefydlwyd o dan Statud 17(24) am unrhyw gyfnod ac o dan unrhyw amodau a bennir gan y Cyngor, a sefydlu ac adolygu'n gyson y gweithdrefnau a'r cyfyngiadau y bydd awdurdod dirprwyedig yn cael ei ymarfer oddi tanynt, ar yr amod
 - (i) nad oes dim yn caniatáu i'r Cyngor ddirprwyo unrhyw rai o'i bwerau i unrhyw bwyllgor a sefydlwyd o dan ddarpariaethau Statud 17(24) nad yw'r mwyafrif o aelodau'r cyfryw bwyllgor hefyd yn aelodau o'r Cyngor;
 - (ii) nad oes dim yn caniatáu i'r Cyngor ddirprwyo unrhyw rai o'i bwerau mewn perthynas â:
 - (a) phennu unrhyw faterion yn ymwneud â llywodraeth, cenhadaeth a strategaeth y Brifysgol;
 - (b) cymeradwyo'r amcanion incwm a gwariant blynyddol a'r datganiadau ariannol mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol;
 - (c) sicrhau hydaledd y Brifysgol a diogelu ei hasedau;
 - (d) penodi neu ddiswyddo'r Is-Ganghellor;
 - (e) diddymu, amrywio neu ychwanegu at y Siarter neu'r Statudau neu'r Ordiniannau.

18. Y BWRDD ACADEMAIDD

- (1) Yn ddarostyngedig i Statud 34, bydd y Bwrdd Academaidd yn cynnwys y personau a ganlyn:
 - (a) *aelodau ex officio*
Yr Is-Ganghellor

Cadeiryddion unrhyw rai o Bwyllgorau'r Bwrdd Academaidd a fydd yn cael eu sefydlu o bryd i'w gilydd

(b) *aelodau a benodir*

Dau aelod o staff academaidd pob un o'r Sefydliadau hynny a ddynodir dan ddarpariaethau'r Siarter a'r Ordiniannau, ac am y tro, yn Sefydliadau Achrededig

Dau aelod o staff academaidd sydd â phrofiad o addysgu cyfrwng Cymraeg wedi'u penodi gan Gyngor y Brifysgol o blith y Sefydliadau Achrededig hynny sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg

Dau fyfyrwr o blith y rhai hynny sy'n astudio am ddyfarniadau'r Brifysgol

- (2) Yn ddarostyngedig i Statud 18(1), dynodir yr holl ddarpariaethau mewn perthynas â phenodi aelodau o'r Bwrdd Academaidd yn yr Ordiniannau.

19. PWERAU'R BWRDD ACADEMAIDD

(A) Cyffredinol

Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Siarter a'r Statudau bydd gan y Bwrdd Academaidd, yn ogystal â'r holl bwerau eraill a freiniwyd ynddo, y pwerau a ganlyn:

- (1) I sicrhau y cynhelir y safonau academaidd uchaf mewn perthynas â'i graddau a'i chymwysterau eraill ac i gadw eu henw a'u huniondeb, sut bynnag a lle bynnag y'i cynigir.
- (2) Cyngori'r Cyngor mewn perthynas â:
- (i) caniatáu i Sefydliadau Achrededig a Sefydliadau Perthynol ac i Gyrff Cysylltiol eraill yr hawl i sefydlu a gweithredu cynlluniau astudio a rhaglenni ymchwil sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol a chofrestru myfyrwyr ar gynlluniau a rhaglenni o'r fath;
 - (ii) pennu trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau mewn perthynas â'r cynlluniau astudio a'r rhaglenni ymchwil hynny sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol a sefydlwyd yn unol â Statud 17(5)(i);
 - (iii) caniatáu i unrhyw Sefydliad Achrededig a Sefydliad Perthynol a fydd wedi ennill ei bwerau dyfarnu graddau a ddysgir ei hun, cyfrifoldeb dirprwyedig am faterion yn ymwneud ag ansawdd a safonau cynlluniau astudio sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol lle bydd cynlluniau astudio o'r fath yn cael eu gweithredu gan y cyfryw sefydliad neu gan unrhyw Sefydliad Achrededig neu Sefydliad Perthynol arall;
 - (iv) caniatáu i unrhyw Sefydliad Achrededig a Sefydliad Perthynol a fydd wedi ennill ei bwerau dyfarnu graddau ymchwil ei hun, cyfrifoldeb dirprwyedig am faterion yn ymwneud ag ansawdd a safonau rhaglenni ymchwil sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol lle bydd rhaglenni ymchwil o'r fath yn cael eu gweithredu gan y cyfryw sefydliad neu gan unrhyw Sefydliad Achrededig neu Sefydliad Perthynol arall;
 - (v) adolygu unrhyw benderfyniadau a fydd wedi'u gwneud gan y Brifysgol mewn perthynas â darpariaethau Statud 17(5)(i), Statud 17(5)(ii), Statud 17(5)(iii) a Statud 17(5)(iv);
 - (vi) cadarnhau'r hawliau a'r cyfrifoldebau a ganiatawyd o dan Statud 17(5)(i), Statud 17(5)(iii) a Statud 17(5)(iv) a'r trefniadau a bennwyd o dan Statud 17(5)(ii);
 - (vii) pennu amodau ar gyfer parhad yr hawliau a'r cyfrifoldebau a ganiatawyd o dan Statud 17(5)(i), Statud 17(5)(iii) a Statud 17(5)(iv) ac addasu'r trefniadau a bennwyd o dan Statud 17(5)(ii);

- (viii) tynnu'r hawliau a'r cyfrifoldebau a ganiatawyd o dan Statud 17(5)(i), Statud 17(5)(iii) a Statud 17(5) (iv) yn ôl a therfynu'r trefniadau a bennwyd o dan Statud 17(5)(ii).
- (3) I bennu strategaeth a pholisi academaidd y Brifysgol.
- (4) I gynnig Statudau ac Ordiniannau, a ffurfio a chynnal Rheoliadau a Rheolau Sefydlog a datrys cwestiynau o ddehongli a diffyg cydymffurfio sy'n codi o'r cyfryw Reoliadau a Rheolau Sefydlog.
- (5) I ddarparu ar gyfer sefydlu a chyfansoddi unrhyw gyrff academaidd y Brifysgol y gall y Bwrdd Academaidd o bryd i'w gilydd ystyried eu bod yn ddymunol, a phennu cyfansoddiad, pwerau, dyletswyddau a swyddogaethau cyrff academaidd o'r fath a darparu ar gyfer diddymu unrhyw gorff academaidd a sefydlir yn y fath fodd.
- (6) I benodi a diddymu pwyllgorau sy'n cynnwys yn rhannol neu'n llwyr aelodau o'r Bwrdd Academaidd a phennu'r modd y penodir aelodau a swyddogaethau pwyllgorau o'r fath.
- (7) I ddirprwyo unrhyw rai o'i bwerau i Swyddogion ac i'r pwyllgorau hynny a sefydlwyd o dan Statud 19(6) am unrhyw gyfnod ac o dan unrhyw amodau a bennir gan y Bwrdd Academaidd, a sefydlu ac adolygu'n gyson y gweithdrefnau a'r cyfyngiadau y bydd awdurdod dirprwyedig yn cael ei ymarfer oddi tanynt, ar yr amod:
- (i) nad oes dim yn caniatáu i'r Bwrdd Academaidd ddirprwyo unrhyw rai o'i bwerau i unrhyw bwyllgor a sefydlwyd o dan ddarpariaethau Statud 19(6) nad yw'r mwyafrif o aelodau'r cyfryw bwyllgor hefyd yn aelodau o'r Bwrdd Academaidd;
 - (ii) nad oes dim yn caniatáu i'r Bwrdd Academaidd ddirprwyo ei bŵer i lunio Rheoliadau a Rheolau Sefydlog.
- (8) I gynghori'r Cyngor ar gyflwyno graddau, diplomâu, tystysgrifau ac anrhydeddau eraill y Brifysgol.
- (9) O dan amodau sydd i'w pennu yn yr Ordiniannau, awdurdodi derbyn i Raddau unrhyw bersonau fydd wedi dilyn cynllun astudio neu ymchwil cymeradwyedig ac a fydd wedi llwyddo yn arholiadau'r Brifysgol ac amddifadu unrhyw berson o unrhyw Radd fel a enwyd uchod ar sail yr hyn y bydd y Bwrdd Academaidd yn ôl ei ddisgresiwn dilyffethair yn ei ystyried yn achos da ac ar unrhyw adeg i adfer unrhyw Radd i unrhyw berson a amddifadwyd felly.
- (10) O dan amodau sydd i'w pennu yn yr Ordiniannau, cyflwyno a chaniatáu Diplomâu, Tystysgrifau neu ddyfarniadau academaidd eraill i unrhyw bersonau sydd wedi dilyn cynllun astudio cymeradwyedig ac amddifadu unrhyw berson o unrhyw Radd fel a enwyd uchod ar sail yr hyn y bydd y Bwrdd Academaidd yn ôl ei ddisgresiwn dilyffethair yn ei ystyried yn achos da ac ar unrhyw adeg i adfer unrhyw ddyfarniad i unrhyw berson a amddifadwyd felly.
- (11) I alw am adroddiadau gan gyrff Prifysgol a chyrff a sefydliadau o'r fath sydd ar hyn o bryd neu a allai ddyfod yn Gorff Cysylltiol.
- (12) I benodi person neu bersonau i ymweld â'r adnoddau dysgu ac ymchwil cyffredinol mewn unrhyw gorff neu sefydliad sydd ar hyn o bryd neu a allai ddyfod yn Gorff Cysylltiol, ac i gyflwyno adroddiad amynt.
- (13) I sefydlu, ar y cyd â'r Cyngor ac yn ddarostyngedig i unrhyw amodau a wneir gan y sefydlwyr, Gymrodoriaethau, Efrogdyddiaethau, Ysgoloriaethau, Gwobrau, Arddangostaloedd ac Addysgedau'r Brifysgol, a chynorthwyon eraill i astudio ac ymchwilio.

- (14) I ddyfarnu a thynnu'n ôl Gymrodoriaethau, Efrogddiaethau, Ysgoloriaethau, Gwobrau, Arddangostaloedd ac Addysgedau'r Brifysgol, a chynorthwyon eraill i astudio ac ymchwilio ac i reoli'r amodau sydd ynghlwm wrth y gwobrau hynny.
- (15) I bennu cynllun a fformat y tystysgrifau gradd a dyfarniadau eraill.
- (16) I fynegi barn ar unrhyw fater sy'n berthnasol i'r Brifysgol a'i gweithrediadau ac i wneud argymhellion neu adroddiadau i'r Cyngor arno.
- (17) I benodi dau o'i aelodau i'r Cyngor, mewn modd a bennir drwy Ordiniant.

(B) Darpariaeth Ddilysedig

Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Siarter a'r Statudau bydd gan y Bwrdd Academiaidd, yn ogystal â'r holl bwerau eraill a freiniwyd iddo, y pwerau a ganlyn mewn perthynas â darpariaeth Ddilysedig:

- (1) I bennu Rheoliadau ar gyfer cynlluniau astudio a ddysgir ac ymchwil.
- (2) I reoli matriciweiddio i gynlluniau ôl'raddedig, holl arholiadau'r Brifysgol a phenodi arholwyr allanol, fel y pennwyd yn yr Ordiniannau.
- (3) I ystyried a datrys unrhyw gwestiynau yn ymwneud â dehongli Rheoliadau a Rheolau Sefydlog ac i ystyried a datrys unrhyw achosion arbennig nad ydynt yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau o'r fath.
- (4) I gyngori'r Cyngor ynglŷn â ffioedd a thaliadau eraill sydd i'w talu i arholwyr ac aseswyr allanol mewn perthynas ag arholiadau ac asesiadau eraill y Brifysgol.
- (5) O dan amodau a gymeradwywyd gan y Brifysgol, i gymeradwyo cynlluniau astudio neu raglenni ymchwil a fydd ar ôl hynny yn cael eu rhestru yn yr Ordiniannau.

20. **DILEWYD**

21. **DILEWYD**

22. **DILEWYD**

23. **DILEWYD**

24. **DILEWYD**

25. **TYNNU'N ÔL STATWS NEU DEITL O EIDDO'R BRIFYSGOL**

- (1) Bydd y Statud hwn yn gymwys yn unig i bersonau na chyflogir mohonynt gan y Brifysgol.
- (2) Bydd unrhyw Statws neu deitl o eiddo'r Brifysgol a ddelir gan aelod o Staff yn darfod ipso facto pan fydd ei ddeiliad yn peidio â bod yn aelod o Staff y corff neu sefydliad hynny onid yw'r Bwrdd Academiaidd yn penderfynu y dylai'r deiliad gadw'r statws neu'r teitl hwnnw.

26. STAFF ACADEMAIDD**RHAN I - PENNU YSTYR, GWEITHREDIAD A DEHONGLI****Ystyr**

- (1) Rhaid pennu ystyr y Statud hwn ac unrhyw Ordiniant neu Reoliad a wneir o dan y Statud hwn ym mhob achos gan weithredu'r egwyddorion cyfeiriol a ganlyn, sef -
- (a) sicrhau bod gan Staff Academaidd ryddid o fewn y gyfraith i gwestiynu a rhoi prawf ar ddoethineb a dderbynnir, ac i gyflwyno syniadau newydd a safbwyntiau dadleuol neu amhoblogaidd, heb iddynt eu gosod eu hunain mewn perygl o golli eu swyddi neu eu breintiau;
 - (b) galluogi'r Brifysgol i ddarparu addysg, hybu dysg ac ymgymryd ag ymchwil yn effeithlon ac yn ddarvoudus; ac
 - (c) cymhwyso egwyddorion cyfiawnder a thegwch.

Rhesymolrwydd penderfyniadau

- (2) Ni fydd unrhyw ddarpariaeth yn Rhan II na Rhan III yn galluogi'r corff neu'r person sydd â'r ddyletswydd i wneud penderfyniad o dan y Rhan berthnasol i ddiswyddo unrhyw aelod o'r Staff Academaidd oni ellir o dan yr amgylchiadau (gan gynnwys maint ac adnoddau gweinyddol y Brifysgol) drin yn rhesymol y rheswm dros ei ddiswyddo neu ei diswyddo fel rheswm digonol dros ei (d)diswyddo.

Gweithrediad

- (3) (1) Bydd y Statud hwn yn weithredol mewn perthynas â'r canlynol:
- (a) yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac aelodau staff y Brifysgol a delir ar raddfeydd academaidd;
 - (b) yr aelodau o staff y Brifysgol a delir ar raddfeydd academaidd-gysylltiedig ac a fydd wedi eu derbyn drwy Benderfyniad y Cyngor fel rhai a gynhwysir yn y Statud hwn;
 - (c) yr Is-Ganghellor i'r graddau ac yn y modd a nodir yn Atodlen y Statud hwn.
- (2) Yn y Statud hwn mae unrhyw gyfeiriad at "Staff Academaidd" yn gyfeiriad at y personau y mae'r Statud hwn yn weithredol mewn perthynas â hwy.

Dehongli**Ystyr "diswyddo"**

- (4) Yn y Statud hwn mae "diswyddo" a "diswyddiad" yn golygu diswyddo aelod o'r Staff Academaidd ac -
- (a) yn cynnwys symud neu, fel y bo'r achos, symudiad o swydd; a
 - (b) mewn perthynas â chyflogaeth dan contract, fe bennir ei ystyr yn unol ag adran 95 Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996.

Ystyr "achos da"

- (5) (1) At ddibenion y Statud hwn, ystyr "achos da" mewn perthynas â diswyddo aelod o'r Staff Academaidd neu ei symud o'i swydd neu o'i le neu o'i lle, a fydd mewn unrhyw achos yn rheswm sy'n gysylltiedig ag ymddygiad neu â gallu neu gymwysterau i gyflawni gwaith o'r math y penodwyd neu y cyflogwyd yr aelod o'r Staff Academaidd dan sylw i'w wneud, yw -
- (a) iddo neu iddi fod wedi ei gael neu ei chael yn euog o drosedd y bo Tribiwnlys a benodir o dan Ran III yn barnu ei fod cyfryw nes peri bod y person a gafwyd yn euog yn anaddas i gyflawni dyletswyddau'r swydd neu'r gyflogaeth fel aelod o'r Staff Academaidd; neu
 - (b) ymddygiad o natur anfoesol, waradwyddus neu warthus sy'n anghydnaws â dyletswyddau'r swydd neu'r gyflogaeth; neu

- (c) ymddygiad sy'n gyfystyr â methu neu wrthod yn barhaus neu esgeuluso neu anallu i gyflawni dyletswyddau'r swydd neu i gydymffurfio ag amodau'r swydd; neu
 - (d) anallu corfforol neu feddyliol a sefydlwyd o dan Ran IV.
- (2) Yn y paragraff hwn -
- (a) mae "gallu", mewn perthynas ag aelod o'r fath, yn golygu gallu a aseswyd drwy gyfeirio at fedrusrwydd, addasrwydd, iechyd neu unrhyw ansawdd corfforol neu feddyliol arall; a
 - (b) mae "cymwysterau", mewn perthynas ag aelod o'r fath, yn golygu unrhyw radd, diploma neu gymhwyster academaidd, technegol neu broffesiynol arall sy'n berthnasol i'r swydd neu'r safle a ddelir gan yr aelod hwnnw.

Ystyr "afreidioldeb"

- (6) At ddibenion y Statud hwn fe gymerir bod diswyddo yn ddiswyddo oherwydd afreidioldeb os gellir ei briodoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf -
- (a) i'r ffaith bod y Brifysgol wedi rhoi'r gorau, neu'n bwriadu rhoi'r gorau, i barhau â'r gweithgarwch y penodwyd neu y cyflogwyd yr aelod perthnasol o'r Staff Academaidd gan y Brifysgol i'w gyflawni, neu ei bod wedi rhoi'r gorau, neu'n bwriadu rhoi'r gorau, i barhau â'r gweithgarwch hwnnw yn y lle y gweithiai'r aelod dan sylw; neu
 - (b) i'r ffaith bod gofynion y gweithgarwch hwnnw am aelodau o'r Staff Academaidd i wneud gwaith o fath arbennig, neu am aelodau o'r Staff Academaidd i wneud gwaith o fath arbennig yn y lle hwnnw, wedi dod i ben neu wedi lleihau neu y disgwylir iddynt ddod i ben neu leihau.

Materion atodol, dros-dro ac ychwanegol

- (7) (1) Mewn unrhyw achos o wrthdaro, bydd darpariaethau'r Statud hwn yn drech na rhai unrhyw Statud arall ac yn drech na rhai'r Ordiniannau a'r Rheoliadau a bydd darpariaethau unrhyw Ordiniant a wneir o dan y Statud hwn yn drech na rhai unrhyw Ordiniant arall:
- Ar yr amod na fydd Rhan III y Statud hwn nac Atodiad y Statud hwn yn weithredol mewn perthynas ag unrhyw beth a wnaed neu yr hepgorwyd ei wneud cyn dyddiad cymeradwyo'r offeryn sy'n gwneud y newidiadau hyn o dan isadran (9) adran 204 Deddf Diwygio Addysg 1988.
- (2) Ni ddehonglir yr un dim mewn unrhyw benodiad a wnaed, neu gytundeb yr ymrwymwyd iddo, fel rhywbeth sy'n drech nag unrhyw ddarpariaeth, neu sy'n cau allan unrhyw ddarpariaeth, a wnaed gan y Statud hwn mewn perthynas â diswyddo aelod o'r Staff Academaidd oherwydd afreidioldeb neu am achos da:
- Ar yr amod na fydd yr un dim yn yr is-baragraff hwn yn rhwystro ildladau a wneir o dan adran 203 Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 rhag bod â grym.
- (3) Ni fydd yr un dim mewn unrhyw Statud arall neu mewn unrhyw Ordiniant neu Reoliad a wneir odano yn awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw swyddog o'r Brifysgol eistedd fel aelod o unrhyw Bwyllgor, Tribiwnlys neu gorff a benodir o dan y Statud hwn neu i fod yn bresennol pan fydd y Pwyllgor, y Tribiwnlys neu'r corff hwnnw'n cyfarfod i ddod i'w benderfyniad neu er mwyn trafod unrhyw bwyntiau ynglŷn â threfn weithredu.
- (4) Mae'r cyfeiriadau at Rannau, paragraffau ac is-baragraffau a rifwyd yn gyfeiriadau at Rannau, paragraffau ac is-baragraffau a rifwyd felly yn y Statud hwn.

RHAN II - AFREIDIOLDEB

Diben Rhan II

- (8) Mae'r Rhan hon yn galluogi'r Cyngor, fel y corff priodol, i ddiswyddo unrhyw aelod o'r Staff Academaidd oherwydd afreidioldeb.

Cau allan o Ran II bersonau a benodwyd neu a ddyrchafwyd cyn 20fed Tachwedd 1987

- (9) (1) Ni fydd yr un dim yn y Rhan hon yn rhagfarnu, yn newid nac yn effeithio ar unrhyw hawliau, pwerau neu ddyletswyddau sydd gan y Brifysgol nac yn weithredol mewn perthynas â pherson -
- (a) oni wneir ei benodiad neu ei phenodiad, neu oni ymrwymwyd i'w gontract neu ei chontract cyflogaeth, ar neu ar ôl 20fed Tachwedd 1987; neu
- (b) oni ddyrchefir ef neu hi ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.
- (2) At ddibenion y paragraff hwn mewn perthynas â pherson, caiff cyfeiriad at benodiad a wneir neu gontract yr ymrwymwyd iddo ar neu ar ôl 20fed Tachwedd 1987 neu at ddyrchafiad ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw ei ddehongli yn unol ag isadrannau (3)-(6) adran 204 Deddf Diwygio Addysg 1988.

Y Corff Priodol

- (10) (1) Y Cyngor fydd y corff priodol at ddibenion y Rhan hon.
- (2) Mae'r paragraff hwn yn weithredol lle mae'r corff priodol wedi penderfynu ei bod yn ddymunol bod gostyngiad yn Staff Academaidd -
- (a) y Brifysgol gyfan; neu
- (b) unrhyw adran neu faes tebyg arall yn y Brifysgol drwy afreidioldeb.
- (11) (1) Lle mae'r corff priodol wedi dod i benderfyniad o dan baragraff 10 (2) rhaid iddo benodi Pwyllgor Afreidioldeb sydd i'w gyfansoddi yn unol ag is-baragraff (3) y paragraff hwn i weithredu ei benderfyniad erbyn dyddiad ag y bo'n ei bennu ac at y diben hwnnw
- (a) i ddewis ac argymhell yr aelodau gofynnol o'r Staff Academaidd i'w diswyddo oherwydd afreidioldeb; a
- (b) i gyflwyno'u hargymhellion i'r corff priodol.
- (2) Rhaid i'r corff priodol naill ai gymeradwyo unrhyw argymhelliad ynglŷn â dewis a wneir o dan is-baragraff (1), neu ei anfon yn ôl i'r Pwyllgor Afreidioldeb i'w ystyried ymhellach yn unol â'i gyfarwyddiadau pellach.
- (3) Aelodau'r Pwyllgor Afreidioldeb a benodir gan y corff priodol fydd -
- (a) Cadeirydd; a
- (b) dau aelod o'r Cyngor, na chyflogir mohonynt gan y Brifysgol; a
- (c) dau aelod o'r Staff Academaidd.

Rhybuddion o fwriad i ddiswyddo

- (12) (1) Lle bo'r corff priodol wedi cymeradwyo argymhelliad ynglŷn â dewis a wnaed o dan baragraff 11 (1) gall awdurdodi swyddog o'r Brifysgol fel ei ddirprwy i ddiswyddo unrhyw aelod o'r Staff Academaidd a ddewiswyd felly.
- (2) Rhaid i bob aelod o'r Staff Academaidd a ddewisir gael rhybudd unigol o'r dewis a gymeradwywyd gan y corff priodol.
- (3) Rhaid i bob rhybudd unigol nodi'n ddigonol yr amgylchiadau sydd wedi bodloni'r corff priodol fod y diswyddiad a fwriedir yn rhesymol a rhaid iddo gynnwys yn arbennig -
- (a) crynodeb o'r camau a gymerwyd gan y corff priodol o dan y Rhan hon;
- (b) disgrifiad o'r prosesau dewis a ddefnyddiwyd gan y Pwyllgor Afreidioldeb;
- (c) cyfeiriad at hawliau'r person a hysbyswyd i apelio yn erbyn y rhybudd ac at yr amser o fewn yr hwn y mae'n rhaid cyflwyno unrhyw apel o'r fath o dan Ran V (Apelau); a
- (d) datganiad sy'n dweud pryd y bydd y diswyddiad a fwriedir yn dod i rym.

RHAN III - DISGYBLAETH, DISWYDDO A SYMUD O SWYDD***Trefniadau Gweithredu Disgyblaethol***

- (13) (1) Fe ymdrinnir â mân ddiffygion yn anffurfiol.
- (2) Lle bo'r mater yn fwy difrifol ond yn syrthio'n fyr o fod yn achos da posibl ar gyfer diswyddo rhaid dilyn y drefn weithredu a ganlyn -

Cam 1 - Rhybudd Llafar

Os nad yw ei ymddygiad neu ei hymddygiad neu ei berfformiad neu ei pherfformiad yn cyrraedd safonau derbynol caiff yr aelod o'r Staff Academaidd rybudd llafar ffurfiol fel arfer. Fe hysbysir yr aelod o'r rheswm dros y rhybudd, mai cam cyntaf y drefn weithredu ddisgyblaethol ydyw, ac o'r hawl i apelio o dan y paragraff hwn. Cedwir nodyn byr o'r rhybudd llafar ond bydd yn colli ei rym ar ôl 12 mis, yn amodol ar ymddygiad a pherfformiad boddhaol.

Cam 2 - Rhybudd Ysgrifenedig

Os yw'r trosedd yn un difrifol, neu os digwydd trosedd pellach, rhoir rhybudd ysgrifenedig i'r aelod o'r Staff Academaidd gan Bennaeth yr Adran. Bydd y rhybudd hwnnw'n rhoi manylion y gwyn, y gwelliant sy'n ofynnol, ac amserlen y gwelliant. Bydd yn rhybuddio y gellir gwneud cwyn i'r Cyfarwyddwr Personél yn gofyn am ddwyn cyhuddiadau i'w gwrandao gan Dribiwnlys a benodir o dan baragraff 16 os na cheir gwelliant boddhaol a bydd yn hysbysu o'r hawl i apelio o dan y paragraff hwn. Cedwir copi o'r rhybudd ysgrifenedig hwn gan Bennaeth yr Adran ond fe'i hanwybyddir at ddibenion disgyblu ar ôl 2 flynedd yn amodol ar ymddygiad a pherfformiad boddhaol.

Cam 3 - Apelau

Rhaid i aelod o'r Staff Academaidd sy'n dymuno apelio yn erbyn rhybudd disgyblu hysbysu'r Ysgrifennydd Cyffredinol o fewn pythefnos. Gwrandewir pob apêl o'r fath gan yr Is-Ganghellor a bydd ei benderfyniad neu ei phenderfyniad yn derfynol.

Astudiaeth ragarweiniol o faterion disgyblu difrifol

- (14) (1) Os na chafwyd unrhyw welliant boddhaol yn sgîl rhybudd ysgrifenedig a roddwyd o dan Gam 2 y drefn weithredu ym mharagraff 13, neu mewn unrhyw achos arall lle'r honnir y gallai ymddygiad neu berfformiad fod yn achos da dros ddiswyddo neu symud o swydd, gellir gwneud cwyn sy'n gofyn am ddwyn cyhuddiadau i'w gwrandao gan Dribiwnlys a benodir o dan baragraff 16 i'r Ysgrifennydd Cyffredinol, a fydd yn ei gyflwyno i sylw'r Is-Ganghellor.
- (2) Er mwyn i'r Is-Ganghellor allu ymdrin yn deg ag unrhyw gwyn a gyflwynir i'w sylw o dan is-baragraff (1) rhaid iddo neu iddi gychwyn yr ymchwiliadau neu'r ymholiadau (os o gwbl) yr ymddengys iddo neu iddi eu bod yn angenrheidiol.
- (3) Os yw'n ymddangos i'r Is-Ganghellor fod cwyn a gyflwynwyd i'w sylw o dan is-baragraff (1) yn ymwneud ag ymddygiad neu berfformiad nad yw'n bodloni safonau derbynol ond na roddwyd rhybudd ysgrifenedig yn ei gylch o dan baragraff 13 neu sy'n ymwneud â honiad penodol o dorri rheolau, rheoliadau neu is-ddeddfau y gosodir cosb safonol am hynny fel arfer yn y Brifysgol, yr adran neu faes perthnasol arall, neu'n ddibwys neu'n annilys gall ei gwrthod yn ddiannod, neu benderfynu peidio â mynd ymlaen ymhellach o dan y Rhan hon.
- (4) Os nad yw'r Is-Ganghellor yn delio â chwyn yn derfynol o dan is-baragraff rhaid iddo neu iddi drin yr achos fel un sy'n cynnig rheswm digonol dros fwrw ymlaen ymhellach o dan y Rhan hon ac, os gwêl yn dda, gall wahardd yr aelod o'i waith neu ei gwaith ar gyflog llawn tan y gwneir penderfyniad terfynol.
- (5) Os yw'r Is-Ganghellor yn bwrw ymlaen ymhellach o dan y Rhan hon, rhaid iddo neu iddi ysgrifennu at yr aelod perthnasol o'r Staff Academaidd gan wahodd sylwadau ysgrifenedig.

- (6) Cyn gynted ag y bo modd ar ôl cael sylwadau (os o gwbl) rhaid i'r Is-Ganghellor ystyried y mater yng ngoleuni'r holl ddeunydd sydd ar gael bryd hynny ac -
- (a) gall ef neu hi ei hun ei wrthod; neu
 - (b) gall ei gyfeirio i gael ei ystyried o dan baragraff 13; neu
 - (c) gall ef neu hi ei hun ymdrin ag ef yn anffurfiol os yw'n ymddangos i'r Is-Ganghellor ei bod yn briodol gwneud hynny ac os yw'r aelod o'r Staff Academaidd yn cytuno'n ysgrifenedig y dylid ymdrin â'r mater yn y ffordd honno; neu
 - (d) gall gyfarwyddo'r Ysgrifennydd Cyffredinol i ddwyn cyhuddiad neu gyhuddiadau i'w ystyried neu eu hystyried gan Dribiwnlys i'w benodi o dan baragraff 16.
- (7) Os na ddaw unrhyw sylw i law o fewn 28 niwrnod gall yr Is-Ganghellor fwrw ymlaen fel y nodwyd uchod fel petai'r aelod dan sylw wedi gwadu sylwedd a dilysrwydd yr achos honedig yn ei gyfanrwydd.

Dwyn Cyhuddiadau

- (15) (1) Mewn unrhyw achos lle mae'r Is-Ganghellor wedi cyfarwyddo y dylid dwyn cyhuddiad neu gyhuddiadau o dan baragraff 14(6)(d), rhaid iddo neu iddi ofyn i'r Cyngor benodi Tribiwnlys o dan baragraff 16 i wrando'r cyhuddiad neu'r cyhuddiadau ac i benderfynu a yw ymddygiad neu berfformiad yr aelod perthnasol o'r Staff Academaidd yn gyfystyr ag achos da i'w ddiswyddo neu ei diswyddo neu fel arall yn gyfystyr â chwyn ddifrifol mewn perthynas â phenodiad neu gyflogaeth yr aelod.
- (2) Os yw'r Cyngor wedi cael cais i benodi Tribiwnlys o dan baragraff 16 bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol neu, os na all ef neu hi weithredu, swyddog arall a benodir gan yr Is-Ganghellor, â gofal y gweithrediadau.
- (3) Rhaid i'r swyddog sydd â gofal y gweithrediadau lunio, neu drefnu i lunio, y cyhuddiad neu'r cyhuddiadau a rhaid iddo neu iddi gyflwyno, neu drefnu i gyflwyno, y cyhuddiad neu'r cyhuddiadau gerbron y Tribiwnlys.
- (4) Dyletswydd y swyddog sydd â gofal y gweithrediadau fydd -
- (a) anfon y cyhuddiad neu'r cyhuddiadau ymlaen i'r Tribiwnlys ac at yr aelod perthnasol o'r Staff Academaidd ynghyd â'r dogfennau eraill y cyfeirir atynt ynddo neu ynddynt, a
 - (b) gwneud unrhyw drefniadau gweinyddol angenrheidiol ar gyfer gwysio tystion, dangos dogfennau ac yn gyffredinol ar gyfer cyflwyno'r achos yn gywir gerbron y Tribiwnlys.

Y Tribiwnlys

- (16) Aelodau'r Tribiwnlys a benodir gan y Cyngor fydd:
- (a) Cadeirydd; a
 - (b) un aelod o'r Cyngor, nad yw'n berson a gyflogir gan y Brifysgol; ac
 - (c) un aelod o'r Staff Academaidd a gyflogir gan y Brifysgol.

Darpariaethau ynglŷn â threfn weithredu Tribiwnlys

- (17) (1) Y drefn weithredu sydd i'w dilyn mewn perthynas â pharatoi, gwranddo a phenderfynu ar gyhuddiadau gan Dribiwnlys fydd yr un a nodir mewn Ordiniannau a wneir o dan y paragraff hwn.
- (2) Heb ragfarnu ystyr gyffredinol yr uchod rhaid i Ordiniannau o'r fath sicrhau -
- (a) bod gan yr aelod perthnasol o'r Staff Academaidd yr hawl i gael ei gynrychioli neu ei chynrychioli gan berson arall, boed hwnnw neu honno wedi ymgymhwyso yn y gyfraith neu beidio, mewn ac mewn cysylltiad ag unrhyw wrandawriad o gyhuddiadau gan Dribiwnlys;

- (b) na phenderfynir ar gyhuddiad heb wrandawriad llafar y mae gan yr aelod perthnasol o'r Staff Academaidd ac unrhyw berson a benodwyd ganddo neu ganddi i'w gynrychioli neu ei chynrychioli yr hawl i fod yn bresennol;
- (c) bod yr aelod o'r Staff Academaidd ac unrhyw berson sy'n cynrychioli'r aelod o'r staff yn gallu galw tystion ac yn gallu holi tystion am y dystiolaeth y seilir yr achos yn ei (h)erbyn arni; a
- (d) gwneud darpariaeth lawn a digonol ar gyfer -
 - (i) oedi, gohirio, gwrthod y cyhuddiad neu'r cyhuddiadau oherwydd diffyg erlyn, anfon y cyhuddiad neu'r cyhuddiadau yn ôl at yr Is-Ganghellor i'w ystyried neu eu hystyried ymhellach ac i gywiro gwallau damweiniol; a
 - (ii) terfynau priodol ar amser ar gyfer pob cam (gan gynnwys y gwrandawriad) er mwyn i Dribiwnlys wrando a phenderfynu ar unrhyw gyhuddiad odanynt mor gyflym ag sy'n rhesymol ymarferol.

Hysbysu am benderfyniad y Tribiwnlys

- (18) (1) Rhaid i Dribiwnlys anfon ei benderfyniad ar unrhyw gyhuddiad a gyfeirir ato (ynghyd â'i ganfyddiadau ffeithiol a'r rhesymau dros ei benderfyniad ynglŷn â'r cyhuddiad hwnnw a'i argymhellion, os oes rhai, ynglŷn â'r gosb briodol) at yr Is-Ganghellor ac at bob parti i'r gweithrediadau.
- (2) Rhaid i Dribiwnlys dynnu sylw at y cyfnod o amser o fewn yr hwn y gellir gwneud unrhyw apêl drwy sicrhau anfon copi o Ran V (Apelau) gyda phob copi o'i benderfyniad a anfonir at barti i'r gweithrediadau o dan y paragraff hwn.

Pwerau'r swyddog priodol os cadarnheir y cyhuddiadau gan y Tribiwnlys

- (19) (1) Os cadarnheir y cyhuddiad neu'r cyhuddiadau ac os yw'r Tribiwnlys yn darganfod achos da ac yn argymhell diswyddo neu symud o swydd, ond nid mewn unrhyw achos arall, rhaid i'r swyddog priodol benderfynu a ddylid diswyddo'r aelod perthnasol o'r Staff Academaidd.
- (2) Mewn unrhyw achos lle cadarnheir y cyhuddiadau, ac eithrio lle bo'r swyddog priodol wedi penderfynu o dan is-baragraff (1) i ddiswyddo'r aelod perthnasol o'r Staff Academaidd, gall y camau sydd ar gael i'r swyddog priodol (heb gynnwys cosb sy'n fwy na'r hyn a argymhellwyd gan y Tribiwnlys) fod fel a ganlyn -
 - (a) trafod gyda'r aelod perthnasol y materion a godwyd; neu
 - (b) cynghori'r aelod perthnasol ynglŷn â'i ymddygiad neu ei hymddygiad yn y dyfodol; neu
 - (c) rhybuddio'r aelod perthnasol; neu
 - (d) gwahardd yr aelod perthnasol am y cyfnod y bydd y swyddog priodol yn ei ystyried yn deg ac yn rhesymol, heb fod dros 3 mis ar ôl penderfyniad y Tribiwnlys; neu
 - (e) unrhyw gyfuniad o unrhyw rai o'r uchod neu unrhyw gamau pellach neu eraill o dan gontract cyflogaeth neu delerau penodi'r aelod ag sy'n ymddangos yn deg ac yn rhesymol o dan holl amgylchiadau'r achos.

Swyddogion Priodol

- (20) (1) Yr Is-Ganghellor fydd y swyddog priodol i ymarfer y pwerau a roddir gan baragraff 19 ac mae unrhyw gyfeiriad at y swyddog priodol yn cynnwys cyfeiriad at ddirprwy y swyddog hwnnw.
- (2) Rhaid i unrhyw gamau a gymerir gan y swyddog priodol gael eu cadarnhau'n ysgrifenedig.

RHAN IV - SYMUD O SWYDD OHERWYDD ANALLU AM RESYMAU MEDDYGOL

- (21) (1) Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth ar wahân ar gyfer asesu anallu am resymau meddygol fel achos da dros ddiswyddo neu symud o swydd.
- (2) Yn y Rhan hon mae cyfeiriadau at resymau meddygol yn gyfeiriadau at allu a aseswyd drwy gyfeirio at iechyd neu unrhyw nodwedd gorfforol neu feddyliol arall.
- (3) Yn y Rhan hon mae cyfeiriadau at y swyddog priodol yn gyfeiriadau at yr Is-Ganghellor neu swyddog sy'n gweithredu fel ei ddirprwy neu ei dirprwy i gyflawni'r weithred berthnasol.
- (4) Mae cyfeiriadau at yr aelod o'r Staff Academaidd yn cynnwys, mewn achosion lle bo natur yr anallu honedig yn mynnu hynny, berthynas neu gyfaill cyfrifol yn ogystal â'r aelod hwnnw (neu yn ei le neu ei lle).
- (22) (1) Os yw'n ymddangos y byddai cyfiawnhad dros symud aelod o'r Staff Academaidd o'i swydd am resymau meddygol, rhaid i'r swyddog priodol -
- (a) hysbysu'r aelod yn unol â hynny; a
- (b) hysbysu'r aelod yn ysgrifenedig ei bod yn fwrdd gwneud cais i feddyg yr aelod am adroddiad meddygol, a cheisio caniatâd ysgrifenedig yr aelod yn unol â gofynion Deddf Mynediad i Adroddiadau Meddygol 1988.
- (2) Os yw'r aelod yn rhannu'r farn honno rhaid i'r Brifysgol dalu costau rhesymol unrhyw farn feddygol sy'n ofynnol.
- (3) Os nad yw'r aelod yn rhannu'r farn honno rhaid i'r swyddog priodol gyfeirio'r achos yn gyfrinachol, gydag unrhyw dystiolaeth feddygol ategol neu dystiolaeth arall (gan gynnwys unrhyw dystiolaeth feddygol a gyflwynwyd gan yr aelod), i Fwrdd sy'n cynnwys un person a enwebwyd gan y Cyngor; un person a enwebwyd gan yr aelod perthnasol neu, os na cheir yr enwebiad hwnnw, gan y Bwrdd Academaidd; a chadeirydd sy'n gymwys mewn meddygaeth ac y cytunwyd arno neu arni ar y cyd gan y Cyngor a'r aelod neu, os na cheir cytundeb, sydd i'w enwebu neu henwebu gan Lywydd Coleg Brenhinol y Meddygon.
- (4) Gall y Bwrdd ei gwneud hi'n ofynnol i'r aelod perthnasol gael archwiliad meddygol ar draul y Brifysgol.

Terfynu Cyflogaeth

- (23) Os yw'r Bwrdd yn penderfynu y bydd yn ofynnol i'r aelod ymddeol am resymau meddygol, rhaid i'r swyddog priodol gyfarwyddo'r Ysgrifennydd Cyffredinol neu ei ddirprwy neu ei dirprwy i derfynu cyflogaeth yr aelod dan sylw am y rhesymau meddygol hynny.

RHAN V - APELAU***Diben Rhan V***

- (24) Mae'r Rhan hon yn sefydlu trefniadau gweithredu ar gyfer gwrando a phenderfynu ar apelau gan aelodau o'r Staff Academaidd a ddiswyddir neu sydd dan rybudd diswyddo neu a ddisgyblir mewn rhyw ffordd arall.

Gweithrediad a dehongli Rhan V

- (25) (1) Mae'r Rhan hon o'r Statud hwn yn weithredol mewn perthynas ag -
- (a) apelau yn erbyn penderfyniadau'r Cyngor fel y corff priodol (neu ddirprwy o'r corff hwnnw) i ddiswyddo wrth ymarfer ei bwerau o dan Ran II;
- (b) apelau sy'n codi mewn unrhyw weithrediadau, neu o unrhyw benderfyniad a wnaed, o dan Ran III heblaw apelau o dan baragraff 13 (Apelau yn erbyn rhybuddion disgyblu);
- (c) apelau yn erbyn diswyddo ac eithrio yn unol â Rhan II neu Ran III;

- (d) apelau yn erbyn disgyblu ac eithrio yn unol â Rhan III; ac
 - (e) apelau yn erbyn penderfyniadau a wnaed o dan Ran IV ac fe ddehonglir “apêl” ac “apelydd” yn unol â hynny.
- (2) Er hynny, ni ellir apelio yn erbyn -
 - (a) penderfyniad y corff priodol o dan baragraff 10 (2);
 - (b) canfyddiadau ffeithiol Tribiwnlys o dan baragraff 18 (1) ac eithrio lle y gelwir tystiolaeth newydd, gyda chydsyniad y person neu'r personau sy'n gwrando'r apêl, ar ran yr apelydd yn y gwrandawriad hwnnw;
 - (c) unrhyw ganfyddiad gan Fwrdd a sefydlwyd o dan baragraff 22 (3).
 - (3) Yn y Rhan hon mae cyfeiriadau at “y person a benodwyd” yn gyfeiriadau at y person a benodwyd gan y Cyngor o dan baragraff 28 i wrando a phenderfynu ar yr apêl berthnasol.
 - (4) Partïon apêl fydd yr apelydd a'r Ysgrifennydd Cyffredinol ac unrhyw berson arall a ychwanegir fel parti ar gyfarwyddyd y person a benodwyd.

Dwyn Apelau

- (26) Rhaid i aelod o'r Staff Academaidd ddwyn apêl drwy gyflwyno i'r Ysgrifennydd Cyffredinol, o fewn yr amser a ganiateir o dan baragraff 27, hysbysiad ysgrifenedig sy'n nodi ar ba sail y gwneir yr apêl.

Amser ar gyfer apelio a hysbysiadau apêl

- (27) (1) Rhaid cyflwyno hysbysiad apêl o fewn 28 niwrnod o ddyddiad anfon y ddogfen sy'n cofnodi'r penderfyniad yr apelir yn ei erbyn at yr apelydd neu unrhyw gyfnod hwy, os o gwbl, y bo'r person a benodwyd yn penderfynu arno o dan is-baragraff (3).
- (2) Rhaid i'r Ysgrifennydd Cyffredinol gyflwyno unrhyw hysbysiad am apêl a ddaw i law (a dyddiad ei gyflwyno) i sylw'r Cyngor a rhaid iddo neu iddi hysbysu'r apelydd ei fod neu ei bod wedi gwneud hynny.
- (3) Os cyflwynwyd yr hysbysiad apêl i'r Ysgrifennydd Cyffredinol y tu allan i'r cyfnod o 28 niwrnod rhaid i'r person a benodwyd o dan baragraff 28 beidio â chaniatáu i'r apêl fynd yn ei blaen onid yw'n ystyried bod cyfiawnder a thegwch yn ei gwneud yn ofynnol o dan amgylchiadau'r achos.

Personau a benodwyd i wrando a phenderfynu ar apelau

- (28) (1) Os dygir apêl o dan y Rhan hon rhaid i'r Cyngor benodi person a ddisgrifir yn is-baragraff (2) i wrando a phenderfynu ar yr apêl honno.
- (2) Mae'r personau a ddisgrifir yn yr is-baragraff hwn yn bersonau na chyflogir mohonynt gan y Brifysgol ac sy'n dal, neu sydd wedi dal, swydd farnwrol neu sy'n fargyfreithwyr neu'n gyfreithwyr ag o leiaf ddeg mlynedd o brofiad.
- (3) Rhaid i'r person a benodwyd eistedd ar ei ben neu ar ei phen ei hun onid yw'n ystyried mai eistedd gyda dau berson arall fydd y ffordd orau o wasanaethu cyfiawnder a thegwch.
- (4) Y personau eraill a all eistedd gyda'r person a benodwyd fydd -
 - (a) un aelod o'r Cyngor ac nad yw'n berson a gyflogir gan y Brifysgol; a
 - (b) un aelod o'r Staff Academaidd at ddibenion y Statud hwn.

Darpariaethau ynglŷn â threfniadau a phwerau apêl

- (29) (1) Y drefn weithredu sydd i'w dilyn mewn perthynas â pharatoi, cydgrynhoi, gwrando a phenderfynu ar apelau fydd yr un a nodir mewn Ordiniannau a wneir o dan y paragraff hwn.

- (2) Heb ragfarnu ystyr gyffredinol yr uchod rhaid i Ordiniannau o'r fath sicrhau -
- (a) bod gan apelydd yr hawl i gael ei gynrychioli neu ei chynrychioli gan berson arall, boed hwnnw neu honno wedi ymgymhwyso yn y gyfraith neu beidio, mewn ac mewn cysylltiad ag unrhyw wrandawriad o'i (h)apêl;
 - (b) na phenderfynir ar apêl heb wrandawriad llafar y mae gan yr apelydd ac unrhyw berson a benodwyd ganddo neu ganddi i'w gynrychioli neu i'w chynrychioli yr hawl i fod yn bresennol, a chyda chaniatâd y person neu bersonau sy'n gwrando'r apêl, i alw tystion;
 - (c) gwneud darpariaeth lawn a digonol ar gyfer oedi, gohiriadau neu wrthod yr apêl oherwydd diffyg erlyn, a chywiro gwallau damweiniol; a
 - (d) y gall y person a benodwyd osod terfynau priodol ar amser ar gyfer pob cam (gan gynnwys y gwrandawriad ei hun) er mwyn gwrando a phenderfynu ar unrhyw apêl mor gyflym ag sy'n rhesymol ymarferol.
- (3) Gall y person neu'r personau sy'n gwrando'r apêl ganiatáu neu wrthod apêl yn gyfan gwbl neu'n rhannol, a heb ragfarnu'r uchod gall:
- (a) anfon apêl yn erbyn penderfyniad o dan Ran II i'r Cyngor fel y corff priodol (neu unrhyw fater sy'n codi yn ystod apêl o'r fath) i'w ystyried ymhellach fel y bo'r person neu'r personau sy'n clywed yr apêl yn cyfarwyddo; neu
 - (b) anfon apêl sy'n codi o dan Ran III i'w hail-wrando gan Dribiwnlys sydd â chyfansoddiad gwahanol ac sydd i'w benodi o dan y Rhan honno; neu
 - (c) anfon apêl yn erbyn penderfyniad y swyddog priodol o dan Ran IV i'w hystyried ymhellach fel y bo'r person neu'r personau sy'n gwrando'r apêl yn cyfarwyddo; neu
 - (d) gosod unrhyw gosb amgen sy'n llai ac a fyddai wedi bod yn agored i'r swyddog priodol ar ôl y penderfyniad gan y Tribiwnlys a wrandawodd ac a fynegodd farn ar y cyhuddiad neu'r cyhuddiadau gwreiddiol.

Hysbysu am benderfyniadau

- (30) Rhaid i'r person a benodwyd anfon y penderfyniad rhesymedig, gan gynnwys unrhyw benderfyniad a wnaed wrth ymarfer ei bwerau neu ei phwerau o dan baragraff 29(3) (a), (b) neu (c), ar unrhyw apêl ynghyd ag unrhyw ganfyddiadau ffeithiol sy'n wahanol i'r rhai y daethpwyd iddynt gan y Cyngor fel y corff priodol o dan Ran II neu gan y Tribiwnlys o dan Ran III, fel y bo'r achos, at yr Is-Ganghellor ac at bartïon yr apêl.

RHAN VI - TREFNIADAU CWYNO

Diben Rhan VI

- (31) Amcan y Rhan hon yw setlo neu gywiro cwynion unigol yn ddiymdroi, yn deg a chyn belled â phosibl o fewn yr adran neu faes perthnasol arall drwy ddulliau sy'n dderbyniol i bob parti.

Gweithrediad

- (32) Y cwynion y mae'r Rhan hon yn weithredol yn eu cylch yw cwynion gan aelodau o'r Staff Academiaidd ynglŷn â'u penodiadau neu eu cyflogaeth lle bo'r cwynion hynny'n ymwneud -
- (a) â materion sy'n effeithio arnynt hwy fel unigolion; neu
 - (b) â materion sy'n effeithio ar eu hymdrin neu eu perthnasoedd personol â staff eraill y Brifysgol,
- ac nad ydynt yn faterion y darperir yn benodol ar eu cyfer mewn manau eraill yn y Statud hwn.

Gwaharddiadau a Threfniadau Gweithredu Anffurfiol

- (33) (1) Os yw dulliau cywiro eraill o fewn yr adran neu feysydd perthnasol eraill wedi eu dihybyddu gall yr aelod o'r Staff Academaidd godi'r mater gyda Phennaeth yr adran neu faes perthnasol arall.
- (2) Os yw'r aelod o'r Staff Academaidd yn anfodlon ar ganlyniad cais o dan is-baragraff (1) neu os yw'r gwyn yn ymwneud yn uniongyrchol â Phennaeth yr adran neu faes perthnasol arall, gall yr aelod wneud cais ysgrifenedig i'r Is-Ganghellor i gywiro'r gwyn.
- (3) Os yw'n ymddangos i'r Is-Ganghellor fod y mater wedi ei benderfynu'n derfynol o dan Ran III, IV neu V neu fod y gwyn yn ddibwys neu'n annilys, gall ei gwrthod yn ddiannod, neu beidio â gweithredu arni. Os yw'n ymddangos felly i'r Is-Ganghellor rhaid iddo neu iddi hysbysu'r aelod a'r Pwyllgor Cwynion yn unol â hynny.
- (4) Os yw'r Is-Ganghellor yn fodlon y gallai testun y gwyn gael ei ystyried yn gywir gyda'r canlynol (neu ffurfio'r cyfan neu unrhyw ran o'r canlynol) -
- (a) cwyn o dan Ran III;
- (b) penderfyniad o dan Ran IV; neu
- (c) apêl o dan Ran V
- rhaid iddo neu iddi ohirio gweithredu arni o dan y Rhan hon tan i'r gwyn berthnasol, y penderfyniad perthnasol neu'r apêl berthnasol gael ei wrando neu ei gwrando neu fod yr amser i'w dwyn wedi mynd heibio a rhaid iddo neu iddi hysbysu'r aelod a'r Pwyllgor Cwynion yn unol â hynny.
- (5) Os nad yw'r Is-Ganghellor yn gwrthod y gwyn o dan is-baragraff (3) neu os nad yw'n gohirio gweithredu arni o dan is-baragraff (4) rhaid iddo neu iddi benderfynu a fyddai'n briodol, o ystyried buddiannau cyfiawnder a thegwch, iddo neu iddi geisio delio â'r mater yn derfynol yn anffurfiol. Os yw'n penderfynu felly, rhaid iddo neu iddi hysbysu'r aelod a bwrw ymlaen yn unol â hynny.

Trefn Weithredu y Pwyllgor Cwynion

- (34) Os na ddeliwyd â'r gwyn yn derfynol yn anffurfiol o dan baragraff 33 (5), rhaid i'r Is-Ganghellor gyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Cwynion i'w ystyried.
- (35) Bydd y Pwyllgor Cwynion sydd i'w benodi gan y Cyngor yn cynnwys -
- (a) Cadeirydd; a
- (b) un aelod o'r Cyngor nad yw'n berson a gyflogir gan y Brifysgol; ac
- (c) un aelod o'r Staff Academaidd at ddibenion y Statud hwn.

Y drefn weithredu mewn cysylltiad â phenderfyniadau; a'r hawl i gynrychiolaeth

- (36) Rhaid pennu'r drefn weithredu mewn cysylltiad ag ystyried a phenderfynu ar gwynion mewn Ordiniannau, a hynny mewn ffordd sy'n sicrhau y bydd gan y person sy'n gwneud y gwyn ac unrhyw berson y mae'r gwyn yn ei erbyn neu yn ei herbyn yr hawl i gael eu clywed mewn gwrandawriad ac i ddod â chyfaill neu gynrychiolydd gyda hwy.

Hysbysu am benderfyniadau

- (37) Rhaid i'r Pwyllgor hysbysu'r Cyngor a oes sail i'r gwyn, ac os oes sail iddi bydd y Pwyllgor yn gwneud y cynigion hynny ar gyfer cywiro'r gwyn ag y gwêl yn dda.

ATODIAD

Paragraff 3(1)(c)

DARPARIAETHAU YNGLŶN Â'R IS-GANGHELLOR

1. Gall y Cyngor ofyn i'w Gadeirydd symud yr Is-Ganghellor o'i swydd am achos da yn unol â'r drefn weithredu a ddisgrifir yn yr Atodiad hwn.
 - (1) Gellir gwneud cwyn sy'n ceisio symud yr Is-Ganghellor o'i swydd am achos da gan nid llai na thri pherson sy'n aelodau o'r Cyngor i Gadeirydd y Cyngor.
 - (2) Os yw'n ymddangos i Gadeirydd y Cyngor, ar sail y deunydd sydd ger ei fron neu ei bron, fod y gwyn yn codi achos *prima facie* ac y gallai hynny, os profir ef, fod yn achos da dros ei ddiswyddo neu ei diswyddo neu ei symud o'i swydd rhaid iddo neu iddi ofyn i'r Cyngor benodi Tribiwnlys i wrando a phenderfynu ar y mater.
 - (3) Os yw'n ymddangos i Gadeirydd y Cyngor nad yw cwyn a gyflwynwyd iddo neu iddi o dan is-baragraff (1) yn codi achos *prima facie* neu ei bod yn ddibwys neu'n annilys, gall argymhell i'r Cyngor na chymerir unrhyw gamau pellach yn ei chylch.
 - (4) Pan fydd y Cyngor wedi penodi Tribiwnlys o dan is-baragraff (2) rhaid iddo gyfarwyddo cyfreithiwr neu berson addas arall i lunio cyhuddiad neu gyhuddiadau ac i gyflwyno, neu i drefnu i gyflwyno, y cyhuddiadau gerbron y Tribiwnlys.
 - (5) Rhaid i Dribiwnlys a benodir gan y Cyngor gynnwys:
 - (a) Cadeirydd annibynnol;
 - (b) un aelod o'r Cyngor, nad yw'n berson a gyflogir gan y Brifysgol; ac
 - (c) un aelod o'r Staff Academaidd at ddibenion y Statud hwn.
 - (6) Yn ddarostyngedig i egwyddorion cyfiawnder a thegwch gall y Tribiwnlys benderfynu ar ei drefn weithredu ei hun.
 - (7) Rhaid i'r Tribiwnlys anfon ei benderfyniad rhesymedig ar unrhyw gyhuddiad a gyfeirir ato ynghyd â'i ddarganfyddion ffeithiol ynglŷn â'r cyhuddiad a'i argymhellion, os oes rhai, ynglŷn â'r gosb briodol, at Gadeirydd y Cyngor ac at yr Is-Ganghellor gan dynnu sylw at y cyfnod o amser o fewn yr hwn y dylid cyflwyno unrhyw apêl.
 - (8) Rhaid i bersonau a benodir i wrando'r apêl honno fod yn bersonau sy'n annibynnol ar y Brifysgol ac sy'n dal, neu sydd wedi dal, swydd farnwrol neu sy'n fargyfreithwyr neu'n gyfreithwyr ag o leiaf ddeg mlynedd o brofiad a bydd y person a benodir felly, yn ddarostyngedig i egwyddorion cyfiawnder a thegwch, yn penderfynu ar y drefn weithredu sydd i'w mabwysiadu wrth wrando'r apêl.
 - (9) Rhaid i berson a benodwyd anfon y penderfyniad rhesymedig ar yr apêl, ynghyd ag unrhyw ganfyddiadau ffeithiol sy'n wahanol i'r rhai y daethpwyd iddynt gan y Tribiwnlys a'i argymhellion neu ei hargymhellion, os oes rhai, ynglŷn â'r gosb briodol, at yr Is-Ganghellor ac at Gadeirydd y Cyngor.
 - (10) Os yw cyhuddiad neu gyhuddiadau wedi ei gadarnhau neu wedi eu cadarnhau gan y Tribiwnlys a heb gael ei wrthod neu eu gwrthod ar apêl, rhaid i Gadeirydd y Cyngor benderfynu a ddylid diswyddo'r Is-Ganghellor ai peidio.
2. Os bwriedir cyfeirio cwyn at Dribiwnlys o dan y Statud hwn, gall Cadeirydd y Cyngor wahardd yr Is-Ganghellor o'i ddyletswyddau neu ei ddyletswyddau a gall wahardd yr Is-Ganghellor o Swyddfeydd Gweinyddu Canolog y Brifysgol heb golli cyflog na buddion.
3. Mae i "achos da" yn yr Atodlen hon yr un ystyr ag ym mharagraff 5 y Statud hwn.

4. At ddiben symud yr Is-Ganghellor o'i swydd oherwydd anallu am resymau meddygol, bydd Rhan IV y Statud hwn mewn grym ar yr amod y cynhwysir y newidiadau a ganlyn:-
- (a) yn lle'r cyfeiriadau at aelod o'r Staff Academaidd fe geir cyfeiriadau at yr Is-Ganghellor;
 - (b) yn lle unrhyw gyfeiriad at swydd yr Is-Ganghellor fe geir cyfeiriad at swydd Cadeirydd y Cyngor;
 - (c) yn lle paragraff (23) ceir -

“(23) Os yw'r Bwrdd yn penderfynu y dylid ei gwneud yn ofynnol i'r Is-Ganghellor ymddeol am resymau meddygol, rhaid i'r Bwrdd ofyn i Gadeirydd y Cyngor, fel y swyddog priodol, benderfynu a ddylid terfynu penodiad yr Is-Ganghellor am y rhesymau meddygol hynny.”

27. DILEWYD

28. YR ORDINIANNAU

- (1) Yn ogystal â'r holl bwerau a roir gan y Siarter neu'r Statudau ar gyfer Ordiniannau i ddarparu ar gyfer unrhyw fater, neu ei reoli, fe fydd, yn ddarostyngedig i'r Siarter a'r Statudau, bŵer i Ordiniannau ddarparu ar gyfer unrhyw fater yr ystyrir y dylid gwneud darpariaeth ar ei gyfer ac nad oes unrhyw drefn weithredu arall wedi ei phennu ar ei gyfer gan y Siarter neu'r Statudau.
- (2) Gall unrhyw Ordiniant a wneir yn unol â'r Siarter a'r Statudau bennu y gall unrhyw fater yr effeithir arno drwy hynny gael ei reoli ymhellach, neu y caiff ei reoli ymhellach, drwy Reoliad neu Reol Sefydlog.

29. DILEWYD

30. DILEWYD

31. Y DREFN WEITHREDU

Ac eithrio pan fydd darpariaeth arall yn cael ei wneud yn benodol yn y Siarter neu'r Statudau, gall Ordiniannau ddarparu ar gyfer unrhyw weithdrefnau sy'n ymwneud â gweithredu busnes y Cyngor, y Bwrdd Academaidd a phwyllgorau eraill y Brifysgol.

32. CYFLWYNO RHYBUDDION A DOGFENNAU

- (1) Gall unrhyw rybudd neu ddogfen y mae'n ofynnol o dan y Statudau neu at ddibenion y Statudau ei roi neu ei rhoi i berson neu ei anfon neu ei hanfon at berson gael ei roi neu ei rhoi neu ei anfon neu ei hanfon yn bersonol neu ei anfon neu ei hanfon drwy'r post ato neu ati yn ei gyfeiriad neu ei chyfeiriad diwethaf fel y'i cofrestrwyd gan y Brifysgol.
- (2) Os anfonir rybudd neu ddogfen arall drwy'r post, fe fermir iddo neu iddi fod wedi ei gyflwyno neu ei chyflwyno'n gywir ar y diwrnod yn dilyn y diwrnod y bydd wedi ei bostio neu ei phostio.

33. DEHONGLI'R STATUDAU

Rhaid dehongli'r Statudau mewn modd fel nad ydynt yn gwrthdaro â'r Siarter.

34. DARPARIAETHAU DROS DRO

- (1) Bydd y trefniadau ar gyfer trosglwyddo pwerau a dyletswyddau o'r Cyngor fel y'i cyfansoddir yn union cyn i'r Statud hon ddod i rym ("yr Hen Gyngor") i'r Cyngor fel y'i cyfansoddir gan y Siarter a'r Statudau ("y Cyngor Newydd") yn unol â'r cyfarwyddiadau isod:
- (a) Y bydd yr Hen Gyngor yn parhau ac ef fydd y Cyngor, sy'n ymarfer y swyddogaethau, y pwerau a'r dyletswyddau a roir i'r Cyngor Newydd gan y Siarter a'r Statudau, tan gyfarfod cyntaf y Cyngor Newydd;
 - (b) Cyn gynted ag a bo'n ymarferol ar ôl i'r Statud hon ddod i rym y bydd yr holl bersonau, awdurdodau neu gyrff sydd â'r pŵer drwy'r Statud hon i benodi aelodau'r Cyngor Newydd yn cael gwybod ar unwaith am eu hawliau ac yn cael eu gwahodd i benodi eu cynrychiolwyr ar y dyddiad cyntaf posibl;
 - (c) Cyn gynted ag a bo'n ymarferol ar ôl i benodiadau digonol gael eu gwneud o dan baragraff blaenorol (b) er mwyn creu mwyafrif syml o'r Cyngor Newydd, y gelwir cyfarfod cyntaf y Cyngor Newydd ac ar hynny bydd y Cyngor Newydd yn ymgymryd â'r holl bwerau a dyletswyddau a freinir ynddo gan y Statud hon. Bydd y busnes sydd i'w drafod yn y cyfryw gyfarfod yn cynnwys y canlynol:
 - (i) cyfethol, os gwelir yn dda, nid mwy na dau berson yn aelodau o'r Cyngor Newydd yn unol â pharagraff (1)(c) Statud 15.
 - (ii) penodi aelodau pwyllgorau'r Cyngor Newydd.
 - (iii) cadarnhau statws y pwyllgorau a sefydlwyd gan yr Hen Gyngor yn bwyllgorau'r Cyngor Newydd.
 - (iv) cymeradwyo a mabwysiadu unrhyw Ordiniannau drafft sydd wedi eu gwneud gan yr Hen Gyngor.
- (2) Bydd y trefniadau ar gyfer trosglwyddo pwerau a dyletswyddau o'r Bwrdd Academaidd fel y'i cyfansoddir yn union cyn i'r Statud hon ddod i rym ("yr Hen Fwrdd Academaidd") i'r Bwrdd Academaidd fel y'i cyfansoddir gan y Siarter a'r Statudau ("y Bwrdd Academaidd Newydd") yn unol â'r cyfarwyddiadau isod:
- (a) y bydd yr Hen Fwrdd Academaidd yn parhau ac ef fydd y Bwrdd Academaidd, sy'n ymarfer y swyddogaethau, y pwerau a'r dyletswyddau a roir i'r Bwrdd Academaidd Newydd gan y Siarter a'r Statudau, tan gyfarfod cyntaf y Bwrdd Academaidd Newydd;
 - (b) cyn gynted ag a bo'n ymarferol ar ôl i'r Statud hon ddod i rym y bydd yr holl bersonau, awdurdodau neu gyrff sydd â'r pŵer drwy'r Statud hon i benodi aelodau'r Bwrdd Academaidd Newydd yn cael gwybod ar unwaith am eu hawliau ac yn cael eu gwahodd i benodi eu cynrychiolwyr ar y dyddiad cyntaf posibl;
 - (c) cyn gynted ag a bo'n ymarferol ar ôl i benodiadau digonol gael eu gwneud o dan baragraff blaenorol (b) er mwyn creu mwyafrif syml o'r Bwrdd Academaidd Newydd, y gelwir cyfarfod cyntaf y Bwrdd Academaidd Newydd ac ar hynny bydd y Bwrdd Academaidd Newydd yn ymgymryd â'r holl bwerau a'r dyletswyddau a freinir ynddo gan y Statud hon. Bydd y busnes sydd i'w drafod yn y cyfryw gyfarfod yn cynnwys y canlynol:
 - (i) sefydlu pwyllgorau'r Bwrdd Academaidd Newydd;
 - (ii) penodi aelodau pwyllgorau'r Bwrdd Academaidd Newydd.
- (3) Bydd y Rheoliadau sy'n ymwneud â'r Hen Fwrdd Academaidd yn parhau mewn grym mewn perthynas â'r Bwrdd Academaidd Newydd.

The Schedule

Statutes of the University

1. DEFINITIONS

- (1) In the Statutes except where the context otherwise requires the following terms shall have the following meanings:
- “The University” means the University of Wales.
- “The Charter” means the Supplemental Charter of the University for the time being in force.
- “The Statutes” means these Statutes and any Statute or Statutes for the time being amending or replacing the same.
- “The Council” means the Council of the University.
- “The Academic Board” means the Academic Board of the University.
- “The Graduates” means those persons upon whom the University shall have conferred a degree or degrees.
- “The Staff of the University” means the persons appointed to such staff by or on the authority of the Council.
- “Accredited Institutions” means those institutions that shall, under the provisions of the Charter and the Ordinances, and for the time being, be designated by the University as Accredited Institutions.
- “Affiliated Institutions” means those institutions that shall, under the provisions of the Charter and the Ordinances, and for the time being, be designated by the University as Affiliated Institutions.
- “Associated Bodies” means Accredited Institutions, Affiliated Institutions and any other bodies or institutions with which the University has an association pursuant to Article V(j) of the Charter.
- “Validated provision” means those schemes of study or programmes of research that are provided at institutions other than Accredited or Affiliated Institutions and that have been approved by the University and designated by it as validated schemes of study or validated programmes of research in such manner as shall be prescribed by Ordinance.
- “Ordinances” means any Ordinances made pursuant to the Charter or the Statutes.
- “Regulations” means any Regulations made pursuant to the Charter or the Statutes or the Ordinances.
- “Standing Order” means a Resolution made by any body constituted hereunder for the purpose of regulating its own procedure.
- “Year” means a calendar year.

Words defined in the Charter shall have the same meaning in the Statutes unless the context be repugnant to them.

Words in the singular shall include the plural and words in the plural shall include the singular unless the contrary intention appears.

- (2) Words defined in the Charter or the Statutes shall have the same meaning in the Ordinances and the Regulations unless the context be repugnant to them.

2. ACCREDITED INSTITUTIONS AND AFFILIATED INSTITUTIONS

- (1) Accredited Institution status may only be granted to an institution where at least ‘one-third’ (as defined in the Ordinances) of its overall academic provision is offered under the aegis of the University and leads to degrees and/or other academic awards of the University.
- (2) Affiliated Institution status may be granted to an institution where some, but less than ‘one-third’ (as defined in the Ordinances), of its overall academic provision is offered under the aegis of the University and leads to degrees and/or other academic awards of the University.

- (3) Any Ordinance providing for any institution to become an Accredited Institution or Affiliated Institution must be approved by a Special Resolution of the Council as defined in the Charter.

3. DELETED

4. THE CHANCELLOR

- (1) The Chancellor shall be appointed by the Council in such manner and for such term as shall be prescribed by Ordinance.
- (2) The Chancellor shall not take office until his or her name shall have been approved by the Visitor.

5. THE PRO-CHANCELLOR

The Pro-Chancellor shall be appointed by the Council in such manner and for such term as shall be prescribed by Ordinance.

6. THE VICE-CHANCELLOR

- (1) The Vice-Chancellor shall be appointed by the Council in such manner and for such term as shall be prescribed by Ordinance.
- (2) The Vice-Chancellor shall be the Chief Academic and Executive Officer and shall be responsible to the Council for promoting and advancing the purposes of the University and for the organisation and conduct of the business of the University.
- (3) The Vice-Chancellor shall *ex officio* be a member of the Council, the Academic Board and every other body upon which responsibilities affecting the governance of the University may be conferred by the Charter, Statutes or Ordinances, and of every committee thereof.
- (4) The Vice-Chancellor shall have the power to delegate to other officers and staff of the University such duties of the Vice-Chancellor as he or she thinks fit.
- (5) During any vacancy, or illness or incapacity of the Vice-Chancellor, the Council shall have the power to appoint an Acting Vice-Chancellor.

7. DELETED

8. DELETED

9. THE OFFICERS AND STAFF

The Council shall appoint such other officers and staff as it may deem necessary with such duties as the Council may deem fit.

10. THE AUDITOR OR AUDITORS

The Council shall appoint an Auditor or Auditors in such manner and for such term as shall be prescribed by Ordinance.

11. CONSULTATION

The University shall, in such manner as shall be prescribed by Ordinance:

- (i) regularly consult with its Graduates, the public and with bodies having an interest in the furtherance of the mission of the University, and

- (ii) identify persons qualified and willing to provide support and advice to the University in connection with the furtherance of the mission of the University.

12. DELETED

13. DELETED

14. DELETED

15. THE COUNCIL

- (1) Subject to the provisions of Statute 34, the Council shall consist of the following persons:
 - (a) *ex officio member*
The Vice-Chancellor
 - (b) *appointed members*
 - (i) Three Vice-Chancellors/Principals appointed by and from the Vice-Chancellors/Principals of those institutions that shall, under the provisions of the Ordinances, and for the time being, be designated by the University as Accredited Institutions
 - (ii) Three Chairs of governing bodies appointed by and from the Chairs of those institutions that shall, under the provisions of the Ordinances, and for the time being, be designated by the University as Accredited Institutions
 - (iii) Two persons appointed by and from the representatives on the Academic Board of those institutions that shall, under the provisions of the Ordinances, and for the time being, be designated by the University as Accredited Institutions
 - (iv) One person appointed by and from the staff of the University
 - (v) One person from among the students pursuing a University of Wales award, appointed by the student Presidents (howsoever that office may be termed) of those institutions that shall, under the provisions of the Ordinances, and for the time being, be designated by the University as Accredited Institutions
 - (vi) Twelve other independent persons
 - (c) *co-opted members*
Up to two independent persons
- (2) (a) The ex officio member of the Council shall hold office so long as he/she continues to occupy the position by virtue of which he/she became a member.
- (b) The co-opted members of the Council shall hold office for three years.
- (c) The other members of the Council shall hold office for three years or for so long as they retain the qualification which first made them eligible for appointment to the Council, whichever shall be the shorter period.
- (3) Notwithstanding the provisions aforesaid, and subject to the provisions of Statute 15(1), all other provisions relating to appointment and co-option of members of the Council shall be prescribed in the Ordinances.

16. THE CHAIR AND VICE-CHAIR OF THE COUNCIL

- (1) The Chair of the Council shall be appointed by the Council in such manner and for such a term as shall be prescribed by Ordinance.

- (2) The Vice-Chair of the Council shall be appointed by the Council in such manner and for such a term as shall be prescribed by Ordinance.

17. POWERS OF THE COUNCIL

Subject to the provisions of the Charter and of the Statutes, the Council shall, in addition to all other powers vested in it, have the following powers:

- (1) To appoint the Chancellor, Pro-Chancellor and the Vice-Chancellor in such manner and for such term as shall be prescribed by Ordinance.
- (2) To appoint the Chair and Vice-Chair of the Council in such manner and for such a term as shall be prescribed by Ordinance.
- (3) To appoint staff of the University and to regulate the salaries and conditions of employment of such staff and to institute such offices and posts of the University as may from time to time be considered expedient.
- (4) To confer upon other institutions the status of Accredited Institution or Affiliated Institution of the University.
- (5) On the advice of the Academic Board and under conditions to be prescribed in the Ordinances:
 - (i) to grant to Accredited Institutions and Affiliated Institutions, and to other Associated Bodies, the right to establish and operate schemes of study and programmes of research leading to awards of the University and to enrol students onto such schemes and programmes in such manner and upon such terms and conditions as the University sees fit;
 - (ii) to determine arrangements for the assurance of quality and standards in respect of those schemes of study and programmes of research leading to awards of the University established in accordance with Statute 17(5)(i);
 - (iii) to grant, to any Accredited Institution and Affiliated Institution that shall have been granted its own taught degree awarding powers, delegated responsibility for matters relating to the quality and standards of schemes of study leading to awards of the University where such schemes of study shall be operated by the said institution or by any other Accredited Institution or Affiliated Institution;
 - (iv) to grant, to any Accredited Institution and Affiliated Institution that shall have been granted its own research degree awarding powers, delegated responsibility for matters relating to the quality and standards of programmes of research leading to awards of the University where such programmes of research shall be operated by the said institution or by any other Accredited Institution or Affiliated Institution;
 - (v) from time to time, to review such decisions as may have been taken by the Council further to the provisions of Statute 17(5)(i), Statute 17(5)(ii), Statute 17(5)(iii) and Statute 17(5)(iv) and, as the Council may think fit, to
 - (a) confirm the rights and responsibilities granted under Statute 17(5)(i), Statute 17(5)(iii), and Statute 17(5)(iv) and the arrangements determined under Statute 17(5)(ii);
 - (b) determine conditions for the continuance of the rights and responsibilities granted under Statute 17(5)(i), Statute 17(5)(iii), and Statute 17(5)(iv) and to modify the arrangements determined under Statute 17(5)(ii); or
 - (c) withdraw the rights and responsibilities granted under Statute 17(5)(i), Statute 17(5)(iii) and Statute 17(5)(iv) and to terminate the arrangements determined under Statute 17(5)(ii).

- (6) To confirm the designation of the degrees, diplomas, certificates and other academic distinctions of the University.
- (7) Subject to conditions prescribed in the Ordinances to approve the conferring of Honorary Degrees and other Honorary Distinctions of the University.
- (8) To demand and receive such fees as may be payable to the University in respect of studies leading to Degrees and awards of the University.
- (9) To regulate, after consultation with the Academic Board, the fees and other emoluments to be paid to external examiners and assessors in respect of the examinations of the University.
- (10) To institute, jointly with the Academic Board and subject to any conditions made by the founders, University Fellowships, Studentships, Scholarships, Prizes, Exhibitions and Bursaries and other aids to study and research.
- (11) To approve the association of other bodies and institutions in accordance with Article V(j) of the Charter.
- (12) To appoint a person or persons to visit and report on the general facilities in teaching and research at any body or institution which is now or which may become an Associated Body.
- (13) To call for reports from University organisations, and any Associated Body or Bodies.
- (14) To negotiate on behalf of the University with Government Departments and any other authorities, institutions, companies and persons.
- (15) To repeal, vary or add to the Charter.
- (16) To make Statutes and Ordinances within the limits and subject to the procedures authorised by the Charter, the Statutes and the Ordinances.
- (17) To govern, manage and regulate the finances, accounts, investments, property, business and all affairs whatsoever of the University, and for that purpose to appoint bankers or other agents whom the Council may deem expedient to appoint and to cause proper books of account to be kept for all sources of money received and expended by the University and for the assets and liabilities of the University; so that such books give a true and fair view of the University's affairs and explain its transactions.
- (18) To invest any moneys belonging to the University in such stocks, funds, shares, securities or investments (other than land) whatsoever and wheresoever situate (whether authorised by the general law for the investment of trust moneys or not so authorised) as the Council shall think fit or in the purchase of land in the United Kingdom subject or not subject to leases or tenancies and to vary any such investments including the realisation of existing investments and the re-investments of the net proceeds of the realisation. Provided that in the case of moneys held by the University as trustee the powers hereby conferred shall be exercised subject to the provisions of the law relating to investment by trustees. Provided further that the powers of investment and varying investments hereinbefore contained shall not extend to moneys and investments held by the University as trustee upon special trusts created by a donor or testator.
- (19) To sell, buy, exchange, lease and accept leases of real and personal property on behalf of the University.
- (20) To maintain and dispose of the buildings, premises, furniture and apparatus belonging to or held in trust by the University and to provide such additional buildings as the Council shall consider expedient.

- (21) To borrow money on behalf of the University and, for that purpose, if the Council thinks fit, to mortgage or charge all or part of the property of the University, whether real or personal, and to give such other security as the Council shall think fit.
- (22) To enter into, vary and discharge contracts on behalf of the University.
- (23) To provide for the welfare of all persons who are or were at any time members of the staff of the University and the dependants of such persons including the payment of money, pensions or other benefits and to subscribe to benevolent and other funds for the benefit of such persons.
- (24) To appoint and dissolve committees consisting either wholly or partly of members of the Council and to prescribe the method of appointment of the members and the functions of such committees.
- (25) Under conditions to be prescribed in the Ordinances to confer upon any person the title of Professor, Reader or any other title of the University (and to withdraw any such title).
- (26) To have sole custody and use of the Common Seal of the University.
- (27) Subject to the provisions of the Charter and Statutes to determine all matters relating to the governance, mission, strategy, planning and administration of the activities of the University and its central services.
- (28) Subject to the provisions of the Charter and of the Statutes to take such steps as it may think proper for the purposes of advancing the interests and efficiency of the University and to conduct the executive business of the University.
- (29) Subject to the provisions of the Charter and Statutes to exercise all other powers of the University.
- (30) To delegate any of its powers to Officers and to those committees established under Statute 17(24), for such period and under such conditions as the Council may determine, and to establish and keep under regular review the procedures and limits under which delegated authority will be exercised, provided that
 - (i) nothing shall enable the Council to delegate any of its powers to any committee established under the provisions of Statute 17(24) where a majority of the members of such committee are not also members of the Council;
 - (ii) nothing shall enable the Council to delegate any of its powers with regard to:
 - (a) the determination of any matters relating to the governance, mission and strategy of the University;
 - (b) the approval of the annual estimates of income and expenditure and the financial statements in respect of each financial year;
 - (c) ensuring the solvency of the University and the safeguarding of its assets;
 - (d) the appointment or dismissal of the Vice-Chancellor;
 - (e) the repealing of, varying of or addition to the Charter or the Statutes or the Ordinances.

18. THE ACADEMIC BOARD

- (1) Subject to the provisions of Statute 34, the Academic Board shall consist of the following persons:
 - (a) *ex officio members*
The Vice-Chancellor

The Chairs of such Committees of the Academic Board as may be established from time to time

(b) *appointed members*

Two members of the academic staff from each of those Institutions as shall, under the provisions of the Statutes and Ordinances, and for the time being, be designated as Accredited Institutions

Two members of the staff experienced in Welsh medium provision appointed by the University Council from among those Accredited Institutions that teach through the medium of Welsh

Two students from among those studying for awards of the University

- (2) Subject to the provisions of Statute 18(1), all provisions relating to appointment of members of the Academic Board shall be prescribed in the Ordinances.

19. POWERS OF THE ACADEMIC BOARD

(A) General

Subject to the provisions of the Charter and of the Statutes the Academic Board shall, in addition to all other powers vested in it, have the following powers:

- (1) To ensure the maintenance of the highest academic standards in respect of its degrees and other qualifications and to preserve and protect their reputation and integrity, howsoever and wheresoever offered.
- (2) To advise the Council with regard to:
- (i) granting to Accredited Institutions and Affiliated Institutions, and to other Associated Bodies, the right to establish and operate schemes of study and programmes of research leading to awards of the University and to enrol students onto such schemes and programmes;
 - (ii) determining arrangements for the assurance of quality and standards in respect of those schemes of study and programmes of research leading to awards of the University established in accordance with Statute 17(5)(i);
 - (iii) granting, to any Accredited Institution and Affiliated Institution that shall have been granted its own taught degree awarding powers, delegated responsibility for matters relating to the quality and standards of schemes of study leading to awards of the University where such schemes of study shall be operated by the said institution or by any other Accredited Institution or Affiliated Institution;
 - (iv) granting, to any Accredited Institution and Affiliated Institution that shall have been granted its own research degree awarding powers, delegated responsibility for matters relating to the quality and standards of programmes of research leading to awards of the University where such programmes of research shall be operated by the said institution or by any other Accredited Institution or Affiliated Institution;
 - (v) reviewing such decisions as may have been taken by the University further to the provisions of Statute 17(5)(i), Statute 17(5)(ii), Statute 17(5)(iii) and Statute 17(5)(iv);
 - (vi) confirming the rights and responsibilities granted under Statute 17(5)(i), Statute 17(5)(iii) and Statute 17(5)(iv) and the arrangements determined under Statute 17(5)(ii);
 - (vii) determining conditions for the continuance of the rights and responsibilities granted under Statute 17(5)(i), Statute 17(5)(iii) and Statute 17(5)(iv) and modifying the arrangements determined under Statute 17(5)(ii);

- (viii) withdrawing the rights and responsibilities granted under Statute 17(5)(i), Statute 17(5)(iii) and Statute 17(5)(iv) and terminating the arrangements determined under Statute 17(5)(ii).
- (3) To determine the academic strategy and policy of the University.
- (4) To propose Statutes and Ordinances, and to make and maintain Regulations and Standing Orders and to resolve questions of interpretation or non-compliance arising from such Regulations and Standing Orders.
- (5) To provide for the establishment and constitution of such academic organisations of the University as the Academic Board may from time to time consider desirable, and to prescribe the constitution, powers, duties and functions of such academic organisations and to provide for the dissolution of any academic organisation so established.
- (6) To appoint and dissolve such and so many committees consisting either wholly or partly of members of the Academic Board and to prescribe the method of appointment of such members and the functions of such committees.
- (7) To delegate any of its powers to Officers and to those committees established under Statute 19(6), for such period and under such conditions as the Academic Board may determine, and to establish and keep under regular review the procedures and limits under which delegated authority will be exercised, provided that:
 - (i) nothing shall enable the Academic Board to delegate any of its powers to any committee established under the provisions of Statute 19(6) where a majority of the members of such committees are not also members of the Academic Board;
 - (ii) nothing shall enable the Academic Board to delegate its powers to make Regulations and Standing Orders.
- (8) To advise the Council on the designation of the degrees, diplomas, certificates and other academic distinctions of the University.
- (9) Under conditions to be prescribed in the Ordinances to authorise the admission to Degrees of persons who shall have pursued an approved scheme of study or research and who shall have passed the examinations of the University and to deprive any person of any Degree as aforesaid on what the Academic Board shall in its unfettered discretion consider to be good cause and at any time to restore such Degree to any person so deprived.
- (10) Under conditions to be prescribed in the Ordinances to confer and grant Diplomas, Certificates or other academic awards on and to persons who have pursued an approved scheme of study and to revoke any such awards made on what the Academic Board shall in its unfettered discretion consider to be good cause and at any time to reinstate any such award so revoked.
- (11) To call for reports from University organisations and such bodies and institutions which are now or which may become an Associated Body.
- (12) To appoint a person or persons to visit and report on the general facilities in teaching and research at any body or institution which is now or which may become an Associated Body.
- (13) To institute, jointly with the Council and subject to any conditions made by the founders, University Fellowships, Studentships, Scholarships, Prizes, Exhibitions and Bursaries, and other aids to study and research.

- (14) To award and withdraw Fellowships, Studentships, Scholarships, Prizes, Exhibitions and Bursaries, and other aids to study and research and to regulate the conditions governing such awards.
- (15) To prescribe the design and format of degree and other awards certificates.
- (16) To express an opinion on any matter pertinent to the University and its affairs and to make recommendations or reports to the Council thereon.
- (17) To appoint two of its members to the Council, in a manner to be prescribed by Ordinance.

(B) Validated Provision

Subject to the provisions of the Charter and of the Statutes the Academic Board shall, in addition to all other powers vested in it, have the additional following powers in respect of Validated provision:

- (1) To prescribe Regulations for taught and research schemes of study.
